



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu

Cynnwys

FFRAMWAITH

Rhagair gan y Gweinidog	1
Cyflwyniad	3
Pennod 1 – Egwyddorion Cyffredin	6
Pennod 2 – Pa Gynnydd a Wnaed?	16
Pennod 3 – Materion a Godwyd drwy Waith Ymgysylltu ac Ymgynghori	21
Pennod 4 – Strategaeth Llywodraeth Cymru: Ymrwymiadau a Dulliau	31
Atodiad 1 – Dolenni i Ystadegau ar Anabledd	37

CYNLLUN GWEITHREDU

Ffyniannus a Diogel	39
Iach ac Egnïol	45
Uchelgeis a Dysgu	49
Unedig a Chysylltiedig	52

Rhagair gan y Gweinidog



Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau y gall pobl anabl gyflawni eu potensial a'u huchelgeisiau a'u breuddwydion yn unol â'r 'Model Cymdeithasol o Anabledd'. Er mwyn gwneud hynny, mae angen dymchwel y rhwystrau sy'n atal uchelgeisiau o'r fath. Mae'r rhain yn sicr yn cynnwys rhwystrau ffisegol mewn adeiladau, trefi ac ardaloedd o gefn gwlad, ond maent hefyd yn cynnwys anawsterau a phroblemau sy'n deillio o agweddau sefydliadau a phobl. Dywed pobl anabl wrthym dro ar ôl tro mai'r rhwystrau hyn sy'n achosi'r rhwystredigaeth fwyaf iddynt ac yn eu hatal rhag byw'r

bywyd y maent am ei fyw, yn fwy nag unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'u cyrff eu hunain.

Yn ogystal, mae'r tlodi a'r achosion o allgáu parhaus y mae llawer o bobl anabl yng Nghymru yn eu hwynebu yn annerbyniol. Mae'r dystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf o effaith polisïau cyni a diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn llawer rhy amlwg ac eang. Rydym wedi clywed gan bobl anabl yr effeithiwyd yn andwyol ar eu bywydau a chan arsylwyr annibynnol, gan gynnwys rapporteurs y Cenhedloedd Unedig, am yr effaith ddinistriol ar filoedd o unigolion, gofalwyr a theuluoedd. O fewn cyfyngiadau ein pwerau, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud cynnydd a dangos arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â materion systemig o'r fath.

Mae'r ffaith bod y DU yn debygol o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd hefyd wedi cael effaith. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau pobl anabl er mwyn nodi'r materion sydd fwyaf tebygol o effeithio ar bobl anabl a llunio'r ymateb gorau posibl mewn cyfnod ansicr. Bydd y gwaith hwn yn parhau, ni waeth sut y bydd y sefyllfa yn datblygu.

Mae angen bwrw ati o ddifrif i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn arbennig, gwyddom mai dim ond drwy weithio gyda phobl anabl y gallwn wneud mwy o gynnydd a sicrhau gwell canlyniadau, er mwyn i ni allu deall y materion yn iawn a dod o hyd i atebion sy'n gweithio.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn. Fe'i lluniwyd yn dilyn proses ymgysylltu helaeth dros gyfnod o bron i ddwy flynedd â phobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Gwnaed y gwaith hwn a'r broses ymgysylltu mewn gweithdai ym mhob cwr o Gymru gan grwpiau o bobl ag arbenigedd a phrofiad o amrywiaeth eang o namau, drwy gannoedd o negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau ffôn yn ôl ac ymlaen, a thrwy sgysiau mewn cartrefi, gweithleoedd, ysgolion a chymunedau. Atgyfnerthwyd y fframwaith ymhellach gan waith ymgynghori a wnaed ar ddiwedd 2018. Gwnaed newidiadau sylweddol, i'r fframwaith ei hun ac i'r cynllun gweithredu cysylltiedig, o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.

Hoffwn ddiolch i bawb a helpodd yn ystod y broses hon, a hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Grŵp Llywio a fu'n ei goruchwylio, o dan arweiniad Prif Weithredwr Anabledd Cymru. Hoffwn hefyd ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc a gyfrannodd at y

broses o lunio'r fframwaith. Maent wedi helpu i sicrhau bod ein dull gweithredu yn briodol ar gyfer pob oedran, ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r 'Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Fel o'r blaen, mae'r fframwaith newydd hwn yn nodi sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae hefyd yn tynnu sylw at rôl deddfwriaeth allweddol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r 'Model Cymdeithasol o Anabledd', sy'n cydnabod yr angen i drawsnewid cymdeithas, gan ddileu rhwystrau er mwyn sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan lawn yn y gymdeithas honno, yn sail i'r fframwaith cyfan. Ceir esboniad mwy cynhwysfawr o'r sylfeini hyn ym Mhennod 1.

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar faterion allweddol a nodwyd gan bobl anabl, yn ogystal â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ei hun. Yn aml, mae'r rhain yn union debyg i'w gilydd, er enghraifft yr angen i helpu pobl anabl sy'n ddi-waith ac sy'n awyddus i weithio i ddod o hyd i swydd. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i symud yr agenda hon yn ei blaen, gan ystyried pwerau datganoledig a phwerau heb eu datganoli. Mae pobl anabl wedi dweud wrthym ei bod yn hanfodol gweithredu ar lefel leol, felly cynlluniwyd y fframwaith i annog gwasanaethau cyhoeddus, cyflogwyr a sefydliadau ar bob lefel yng Nghymru i ystyried yr ymrwymadau a nodir ym Mhennod 4 a'u hefelychu cymaint â phosibl.

Mae strwythur y fframwaith hwn yn newydd, gyda'r brif ddogfen yn nodi'r egwyddorion, y cyd-destun cyfreithiol a'r ymrwymadau sy'n sail i'n holl waith gyda phobl anabl ac er budd pobl anabl. Fe'i hategir gan Gynllun Gweithredu sy'n nodi'r prif gamau gweithredu sydd ar waith neu a gaiff eu harwain gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae modd diweddarau'r camau gweithredu hyn yn gyson. Mae'r fframwaith ar gael mewn amrywiaeth o fersiynau hygyrch. Caiff deunydd ategol hefyd ei ddatblygu, gan gynnwys enghreifftiau o arfer da.

Helpu pobl i fyw eu bywyd fel y mynnont yw'r peth iawn i'w wneud. Cymeradwyaf y fframwaith hwn er mwyn annog camau gweithredu o dan arweiniad pobl anabl ledled Cymru gyfan.



Jane Hutt AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Cyflwyniad

Roedd Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi camau gweithredu i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol a galluogol. Nod y fframwaith oedd lleihau neu ddileu rhwystrau cymdeithasol i gydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn sicrhau y gallai pobl anabl fanteisio ar yr un cyfleoedd â phawb arall. Nododd feysydd gweithredu allweddol â blaenoriaeth:

- cyngor a gwybodaeth, eiriolaeth;
- gofal a chymorth personol;
- technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- cyflogaeth;
- tai;
- cludiant;
- manau hygyrch.

Cydnabuwyd bod cysylltiad rhwng y meysydd hyn: roedd pob un yn rhan o jig-so yr oedd angen iddo fod yn gyflawn er mwyn creu cymdeithas wirioneddol alluogol.

Bu llawer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ers cyhoeddi'r fframwaith blaenorol, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i weithio gyda phobl anabl o bob oedran, er mwyn herio canfyddiadau negyddol a dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae'r fframwaith newydd hwn yn adlewyrchu rhai o'r newidiadau allweddol ac yn nodi'r ymrwymiad hwn unwaith eto.

Yn unol â'r fframwaith blaenorol, ein nod yw sicrhau dull gweithredu eang sy'n helpu pobl ag amrywiaeth eang o namau, gan gynnwys y rheini â namau corfforol neu synhwyraidd, anawsterau dysgu neu unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, sydd, ar y cyd ag amrywiol rwystrau, o bosibl yn eu hatal rhag cymryd rhan lawn ac effeithiol mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill. Nid yw'n ymarferol trafod namau penodol yn fanwl mewn fframwaith o'r fath, ond mae'n hanfodol bod mor gynhwysol â phosibl ac ystyried pobl â namau cudd yn ogystal â namau gweladwy.

Yn ystod 2017, gwnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu â phobl anabl, sefydliadau anabled, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu'r fframwaith gwreiddiol ac ystyried y ffordd ymlaen. Roeddem am nodi pa gynnydd a wnaed ers 2013 a ph'un a oedd y blaenoriaethau gweithredu allweddol yn parhau yr un fath. Cyhoeddwyd arolwg ar-lein hefyd er mwyn casglu safbwyntiau pobl anabl a sefydliadau ledled Cymru. Rydym wedi ystyried safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc anabl a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgysylltu a drefnwyd gan Plant yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd, yn arbennig aelodau'r Grŵp Llywio a oruchwyliodd y broses gyfan.

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys pedair pennod:

- mae Pennod 1 yn amlinellu'r cyd-destun statudol a'r cyd-destun polisi, gan dynnu sylw at ddarpariaethau perthnasol Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau a Hawliau Plant a Phobl Ifanc; y Model

Cymdeithasol o Anabledd; Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol i Gymru.

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r cynnydd a'r datblygiadau a fu ers cyhoeddi'r Fframwaith Gweithredu blaenorol ar gyfer Byw'n Annibynnol yn 2013, gan gynnwys gwaith sydd bellach yn mynd rhagddo i atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, yn arbennig o fewn cyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (a chonfensiynau eraill y Cenhedloedd Unedig).
- Mae Pennod 3 yn crynhoi'r materion a godwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu yn 2017 ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd 2018.
- Mae Pennod 4 yn adeiladu ar y penodau blaenorol ac yn crynhoi dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio gyda phobl anabl a'u cefnogi. Mae'r bennod hefyd yn nodi nifer o ymrwymïadau a fydd yn sail i'n polisiau a'n camau gweithredu mewn perthynas ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymïad i fonitro a gwerthuso'r fframwaith yn barhaus, gan gynnwys drwy ein Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y fframwaith a'r cynllun gweithredu drafft ar ddiwedd 2018. Cafwyd 67 o ymatebion, yr oedd llawer ohonynt ar ran rhwydweithiau a sefydliadau aelodaeth. Yn ogystal, daeth dros 100 o bobl i'r digwyddiadau ymgynghori a drefnwyd gan Anabledd Cymru a Leonard Cheshire. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'r adborth a gafwyd, gwnaed newidiadau pwysig, i brif ddogfen y fframwaith ac i'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys y canlynol:

- Diweddarau'r fframwaith i adlewyrchu ymrwymïad Llywodraeth Cymru i ddechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ystyried opsiynau i hyrwyddo ac atgyfnerthu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys p'un a ddylid cynnwys Confensiynau pellach gan y Cenhedloedd Unedig fel rhan o gyfraith Cymru.
- Atgyfnerthu cyfeiriadau at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chymorth cysylltiedig ar gyfer byw'n annibynnol.
- Ehangu Pennod 2 i gynnwys datblygiadau diweddar i helpu pobl anabl, gan dynnu sylw at rai o elfennau allweddol y cynllun gweithredu.
- Diwygio Pennod 3 i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad diweddaraf, yn ogystal â'r digwyddiadau ymgysylltu yn 2017.
- Ehangu Pennod 4 i ddangos sut y caiff yr ymrwymïadau a nodir yn y bennod honno eu cyfuno i gynrychioli dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru.

Caiff y fframwaith hwn ei ategu gan amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau eraill, gan gynnwys cynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau cyfnewidiol a datblygiadau newydd. Yn yr un modd, bydd amrywiaeth

o enghreifftiau o arfer da ac astudiaethau achos ar gael ac yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Darperir fersiynau hygyrch o'r fframwaith, rhestr termau allweddol a chwestiynau cyffredin.

Yn y fframwaith blaenorol, nodwyd bod gan ddarparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid lleol ran allweddol i'w chwarae wrth gyfrannu at ei nodau. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol, er enghraifft drwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae camau gweithredu ar lefel leol yn hanfodol er mwyn creu cymunedau cynhwysol a galluogol a gwneud gwahaniaeth go iawn i unigolion yn ystod eu bywyd beunyddiol. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, y trydydd sector, busnesau a darparwyr gwasanaethau eraill yn gweithio mewn modd cydgynhyrchiol â phobl anabl a sefydliadau cynrychioliadol a gaiff eu harwain gan bobl anabl er mwyn nodi problemau ac atebion a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella gwasanaethau.

Ailbwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith ymgysylltu a'r camau gweithredu lleol hyn yn ystod yr ymgynghoriad a chan Grŵp Llywio'r fframwaith. Felly, mae'n ddisgwyliad clir gan Lywodraeth Cymru y bydd pob darparwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a llawer o sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat a'r trydydd sector yn mynd ati i gefnogi'r fframwaith hwn a'r cynllun gweithredu atodedig. Yn arbennig, rydym yn annog eraill i fabwysiadu'r dull gweithredu a'r ymrwymadau a nodir ym Mhennod 4 y fframwaith ac i'w rhoi ar waith o fewn sefydliadau, gwasanaethau a chymunedau ledled Cymru.

Pennod 1 – Egwyddorion Cyffredin

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r prif gytuniadau rhyngwladol, deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Cymru sy'n sail i'n camau gweithredu mewn perthynas ag anabledd (cyfeirir at ddarnau eraill o ddeddfwriaeth bwysig ym Mhennod 2). Mae'r bennod hon hefyd yn nodi prif strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i Gymru a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys esboniad o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n sylfaenol i'n dull o weithredu er mwyn galluogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol. Mae adran olaf y bennod yn cydnabod ei bod yn holl bwysig parhau i ymgysylltu â phobl anabl.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth "Byw'n Annibynnol"?

Ystyr byw'n annibynnol yw bod gan bob person anabl yr un **rhyddid, urddas, dewis a rheolaeth** â dinasyddion eraill gartref, yn y gwaith, mewn addysg ac yn y gymuned. Nid yw'n golygu gorfod byw ar eich pen eich hun na gwneud popeth drosoch chi eich hun. Mae'n golygu hawliau i gymorth a chefnogaeth ymarferol er mwyn cymryd rhan lawn mewn cymdeithas ar yr un sail ag eraill, a'r hawl i fynegi dewis a rheolaeth dros y ffordd y caiff y gymorth a'r gefnogaeth eu darparu.

Mae'n ymwneud â sicrhau y gall pobl o bob oedran ac o bob cymuned barhau i fyw'n annibynnol, mwynhau llesiant a chael gafael ar gymorth priodol pan fydd ei angen arnynt ac yn y ffordd briodol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Rhaid i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y'u nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau¹. <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo, yn diogelu ac yn sicrhau y gall pobl anabl fwynhau pob hawl ddynol yn llawn ac yn gyfartal. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys hygrychedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd a gwaith a chyflogaeth.

O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned) yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

¹ Yn aml, cyfeirir at y Confensiwn hefyd yn y DU fel 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl', gan adlewyrchu'r derminoleg a ffeirir gan lawer o bobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi derbyn y defnydd hwn, a hynny hefyd wrth archwilio cydymffurfiaeth y DU â'r Confensiwn ddiwethaf yn 2017. Felly, drwy gydol y Fframwaith hwn, cyfeirir at "bobl anabl" yn hytrach na "phobl ag anableddau".

- Bod gan bobl anabl hawl gyfartal i fyw yn y gymuned a chymryd rhan ynddi.
- Bod gan bobl anabl hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl nad ydynt yn anabl.
- Dylai llywodraethau gydnabod y dylai pobl anabl allu mwynhau'r hawliau hyn.

Ym mis Awst 2017, archwiliodd y Cenhedloedd Unedig gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r Confensiwn. Teithiodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i Genefa ar gyfer yr archwiliad a gynhaliwyd o dan arweiniad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Dros gyfnod o ddeuddydd, craffodd y Pwyllgor ar drefniadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer rhoi'r Confensiwn ar waith a thynnodd sylw at sawl maes o bryder y mae angen eu gwella.

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ei gasgliadau terfynol yn dilyn yr archwiliad. Nid oedd unrhyw argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru eu hystyried, er y gwnaed nifer o argymhellion cyffredinol i'w rhoi ar waith yng Nghymru.

https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en

Mae'r fframwaith hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi egwyddorion y Confensiwn ar waith, gan ystyried argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig lle y bo'n briodol.

Ym mis Rhagfyr 2018, dechreuodd Llywodraeth Cymru broses i ystyried sut y gellid atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru o ystyried ei bod yn debygol y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y broses hon yn dechrau drwy gychwyn y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru. Wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer y ddyletswydd hon yng Nghymru, y bwriad yw mabwysiadu dull gweithredu eang sy'n seiliedig ar hawliau, gan ystyried sawl agwedd ar gydraddoldeb a'r cysylltiad rhyngddynt. Serch hynny, bydd anghenion a hawliau pobl anabl yn parhau wrth wraidd y broses hon, a ysgogwyd yn rhannol gan geisiadau gan Anabledd Cymru a rhanddeiliaid eraill i gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau fel rhan o gyfraith Cymru.

Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mabwysiadodd y Cynulliad Cenedlaethol y model yn 2002, a Chymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i wneud hynny. Mae'r fframwaith hwn yn dangos ymrwymiad o'r newydd i'r model: ein nod yw ymgorffori'r model mewn ffordd weladwy ac effeithiol ym mhob maes gwaith, gan gynnwys fel cyflogwr, ac annog gwasanaethau cyhoeddus ac asiantaethau eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.

Mae'r Model Cymdeithasol yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau² yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd.

- Yn ôl y Model Cymdeithasol o Anabledd, nam yw'r hyn y cyfeiriwyd ato'n hanesyddol fel "anabledd" neu gyflwr iechyd. I lawer o bobl anabl (ond nid pob un), mae'r nam yn rhan sylweddol o'u bywyd a gall fod yn rhan o'u hunaniaeth bersonol. Efallai y bydd angen i rai pobl dreulio cryn dipyn o amser yn rheoli eu nam ac efallai y bydd angen cymorth meddygol parhaus arnynt. Mae'r profiad o nam yn bersonol. Mae profiad pawb yn wahanol. Mae'r profiad hwnnw yn ddilys ac yn bwysig bob amser.
- I'r gwrthwyneb, mae anabledd yn cyfeirio at anghydraddoldeb, anfantais, colli grym neu wahaniaethu a all effeithio ar bobl sydd â namau o ganlyniad i rwystrau at fynediad a chynhwysiant. Er enghraifft, mae grisiau yn rhwystr i ddefnyddiwr cadair olwyn; mae darparu lifft yn dileu'r rhwystr hwnnw. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o rwystrau mae diffyg cyfleusterau dehongli laith Arwyddion Prydain neu system ddolen, diffyg gwybodaeth mewn braille, print bras neu ar dâp sain, diffyg cyfleoedd i weithio'n hyblyg ac yn rhan-amser, diffyg cymorth cymdeithasol priodol neu ddiffyg dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl neu gyflwr ar y sbectwm awtistig. Felly, mae anabledd yn rhywbeth sy'n effeithio ar bobl â namau ond mae'n wahanol i nam. Mae anabledd yn rhywbeth sy'n anablu pobl â namau. Gellir dileu rwystrau. Os caiff y rwystrau eu dileu, caiff yr anabledd ei ddileu.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn nodi "disability results from the interaction between persons with impairments and attitudinal and environmental barriers that hinders their full and effective participation in society on an equal basis with others"³. Petai'n cael ei wireddu'n llawn, byddai'r Model Cymdeithasol yn trawsnewid cymdeithas, yn dileu rwystrau ac yn golygu y byddai pobl anabl yn gallu cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Mae'r ymagwedd hanesyddol at anabledd yn y DU wedi bod yn seiliedig ar y Model Meddygol o Anabledd (lle y caiff nam unigolyn ei ystyried fel y peth sy'n ei anablu). Felly, er mwyn mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, mae angen newid sylfaenol yn ein hymagwedd, ein diwylliant a'r ffordd rydym yn gweithio. Drwy fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar ddileu rwystrau – a gweithio gyda phobl anabl i nodi atebion – gallwn greu polisi gwell a gwasanaethau gwell i bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno'r newid diwylliannol hwn ond mae'n cydnabod y bydd angen mynd ati dros amser i sicrhau bod pob agwedd ar ein gwaith yn cydymffurfio'n llawn â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Y Rwystrau mae Pobl yn eu Hwnebu

² Mae namau yn gyfyngiadau gweithredol a gaiff eu profi gan berson. Gallant fod yn namau gydol oes a gallant ddeillio o salwch neu anaf, ond nid o reidrwydd. Gallant effeithio ar ymddangosiad unigolyn a/neu'r ffordd y mae'n gweithredu neu'n cyfathrebu a/neu gallant achosi amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys poen a blinder.

³ Paragraff (e) rhagarweiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Gall y mwyafrif helaeth o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu gael eu categorio'n eang i un o'r meysydd canlynol:

<p>Rhwystrau o ran Agweddau</p>	<p>Gall agweddau pobl unigol helpu i greu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Gall y penderfyniadau a wneir gennych, yr iaith rydych yn ei defnyddio a'ch ymddygiad greu neu ddileu rhwystrau. Gall rhwystrau o ran agweddau effeithio ar bob agwedd ar gyfranogiad pobl anabl mewn cymdeithas.</p> <p>Hefyd, gall camau sy'n ynysu neu'n eithrio pobl anabl (hyd yn oed yn anfwriadol) achosi effaith niweidiol sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant personol.</p>
<p>Rhwystrau Sefydliadol</p>	<p>Gall polisïau a gweithdrefnau atal pobl anabl rhag cymryd rhan lawn mewn addysg, y gweithle a'r gymuned ehangach, p'un a ydynt yn bwriadu gwneud hynny ai peidio.</p> <p>Ymhlith yr enghreifftiau o bolisïau sy'n helpu pobl anabl i gymryd rhan lawn mae polisïau ar addasiadau rhesymol a chyfleoedd rhan-amser a hyblyg ym meysydd addysg neu gyflogaeth. Gall methiant i weithredu polisïau o'r fath, neu ddiffyg polisïau o'r fath, achosi rhwystrau sylweddol at gydraddoldeb.</p>
<p>Rhwystrau i Gyfathrebu</p>	<p>Mae sawl math gwahanol o rwystrau i gyfathrebu – er enghraifft, y defnydd o iaith anhygyrch, methiant i ddarparu dehonglydd iaith Arwyddion Prydain neu wybodaeth mewn fformatau amgen neu arwyddion a osodir yn rhy uchel i'r sawl sy'n defnyddio cadair olwyn.</p> <p>Mae rhwystrau i gyfathrebu yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd pobl anabl. Er enghraifft, os na fydd cyhoeddiadau sain yn ategu byrddau gwybodaeth mewn gorsafoedd trê, efallai na fydd pobl sydd wedi colli eu golwg yn ymwybodol o newidiadau o ran plattform, gan achosi iddynt gollu eu trê. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar eu gallu i deithio, gan gyfyngu ar eu cydraddoldeb a'u gallu i gyrraedd yn brydlon i ymgymryd ag addysg, mynychu apwyntiadau neu gyfleoedd cyflogaeth.</p>
<p>Rhwystrau Amgylcheddol</p>	<p>Ymhlith yr enghreifftiau mwy amlwg o rwystrau amgylcheddol, mae methiant i ddarparu mynediad llawn a phriodol i adeilad ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn. Ymhlith yr enghreifftiau llai amlwg, mae methu ag ystyried sut y byddai pobl anabl yn cyrraedd lleoliad cyfarfod, cynllunio ystafelloedd gyda'r cyferbyniad lleiaf posibl sy'n gwneud pethau'n anodd i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd â syndrom Usher gymryd rhan lawn mewn unrhyw weithgareddau yn yr ystafelloedd hynny neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ffaith bod angen i rai pobl anabl gael llai o olau neu sŵn.</p>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae CCUHP yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant o dan 18 oed. Fe'i dilyswyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 1989. Yn 1991, cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol y byddai'n sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU yr holl hawliau a restrir yn y confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r Confensiwn fel sail wrth lunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ers 2004.

Mae'r Confensiwn yn cynnwys 54 o erthyglau. Mae Erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylid trin plant ac mae Erthyglau 43-45 yn cyfeirio at sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio er mwyn sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei hawliau.

Mae Erthygl 23 yn nodi y dylai plant ag unrhyw fath o nam gael gofal a chymorth priodol er mwyn iddynt allu byw bywyd llawn a bodlon.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfreithiau domestig pan gyflwynwyd *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*. Mae'r Mesur yn cynnwys CCUHP a'r protocolau dewisol fel rhan o'r gyfraith yng Nghymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodedig ystyried y Confensiwn wrth gyflawni swyddogaethau.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd hon ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant.

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A7178802/document/versions/published>

Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn gryno, mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi ystyriaeth briodol i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, gosododd Rheoliadau penodol i Gymru⁴ sylfaen bellach ar gyfer rhoi cydraddoldeb ar waith yng Nghymru. O dan y Rheoliadau hyn, rhaid i gyrff a restrir baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, rhaid i awdurdodau gynnwys pobl sy'n

⁴ Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithredu ei swyddogaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r gofynion statudol hyn yn darparu sail ar gyfer craffu a herio lleol, ac i gyrff cyhoeddus weithio mewn ffordd gydgyhyrchiol â phobl anabl er mwyn gwella gwasanaethau lleol. Maent hefyd yn cynnig ffordd o nodi anghenion neu batrymau anfantais penodol a chyflwyno atebion ymarferol i ymdrin â nhw.

Cydygyfeiriadedd

Defnyddir y gair cydygyfeiriadedd i nodi a disgrifio'r ffaith bod gwahanol gategoriâu cymdeithasol fel rhywedd, hil a dosbarth yn gorgyffwrdd. Mae'n berthnasol iawn i'r fframwaith hwn gan fod nodweddion ac amgylchiadau personol eraill fel oedran, ethnigrwydd, incwm a rhywioldeb yn aml yn effeithio ar fywydau pobl anabl hefyd. Yn gyffredinol, nid yw'n ddefnyddiol diffinio pobl yn ôl unrhyw nodwedd unigol, boed hynny'n nam neu'n unrhyw nodwedd arall. I'r gwrthwyneb, mae fel arfer yn bwysig iawn ystyried yr holl faterion a allai effeithio arnynt.

Gan gofio hyn, mae'n bwysig iawn bod cysylltiad agos rhwng polisi gweithredu anabledd ag agweddau eraill ar gydraddoldeb, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig eraill (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ac, efallai yn anad dim, materion sy'n ymwneud ag incwm a thlodi. Gallai hyn olygu y caiff adnoddau eu targedu tuag at y bobl hynny â'r anghenion mwyaf a sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried y ffyrdd cymhleth y gall gwahanol ffactorau fel anabledd, hil a rhywedd gyfuno i waethygu problemau neu greu rhwystrau ychwanegol y mae'n rhaid eu goresgyn er mwyn i unigolion gyflawni eu potensial.

Cydgynhyrchu

Mae'r term "cydgynhyrchu", yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus, yn golygu cynnwys rhanddeiliaid wrth greu polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn defnyddio'r diffiniad canlynol:

"Dull o weithio a seilir ar asedau mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yw cydgynhyrchu sy'n galluogi pobl sy'n darparu ac sy'n derbyn gwasanaethau i rannu'r grym a'r cyfrifoldeb, ac i gydweithio mewn perthynas gydradd, gyfatebol a gofalgar. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gymorth pan fo'i angen, ac i gyfrannu at newid cymdeithasol.

Mae 5 egwyddor yn tanategu cydgynhyrchu:

1. Gwerthfawrogi pob cyfranogwr a meithrin cryfderau.
2. Datblygu rhwydweithiau o gymorth y naill i'r llall.
3. Gwneud yr hyn sy'n bwysig i'r bobl berthnasol.
4. Magu cysylltiadau a seilir ar ffydd; rhannu grym a chyfrifoldeb.
5. Gall pobl achosi newid, ac mae sefydliadau'n hwyluso hyn."

Mae cydgynhyrchu yn gysyniad pwysig ar gyfer y fframwith hwn gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod na ellir gwella gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl anabl yn llawn oni chânt eu cynnwys fel rhan weithredol o'r broses o ddylunio a chyflenwi'r gwasanaethau hynny.

Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn cydymffurfio'n llawn ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Bartneriaeth Gymdeithasol a'r egwyddor "Nothing About Us Without Us", sy'n cydnabod na ddylid penderfynu ar unrhyw bolisi heb gyfranogiad llawn a gweithredol aelodau o'r grŵp y bydd y polisi yn effeithio arno, yn ogystal ag egwyddor cyfranogiad a chydweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y Ddyletswydd i Wneud Addasiadau Rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn nodi bod dyletswydd ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau, drwy wneud addasiadau rhesymol, i ddileu'r anafteision y mae pobl anabl yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau y gall pobl anabl ddod o hyd i swyddi, cyfleoedd addysgol a gwasanaethau yr un mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl. Cyfeirir at hyn fel 'y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol'. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ei hun, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

I raddau helaeth, mae'r ddyletswydd hon yn ategu'r Model Cymdeithasol o Anabledd a gall ymdrin â'r canlynol, er enghraifft:

- Sicrhau bod gohebiaeth a gwybodaeth yn hygyrch i bawb;
- Cyflwyno arferion sefydliadol mwy hyblyg;
- Dileu neu leihau rhwystrau ffisegol yn yr amgylchedd; neu
- Darparu cymhorthion neu gyfarpar er mwyn helpu cyflogai i wneud ei waith.

Gall yr hyn sy'n rhesymol ddibynnu ar nifer o ffactorau, ond dylid anelu, cymaint â phosibl, at ddileu neu leihau unrhyw anfantais sylweddol y mae person anabl yn ei hwynebu o gymharu â pherson nad yw'n anabl.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig a Llywodraeth Cymru roi camau datblygu cynaliadwy ar waith. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y cyfeirir ati'n gyffredinol fel y pum dull o weithio) sy'n cynnwys yr angen i ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor, cynnwys pobl â diddordeb wrth gyflawni'r nodau llesiant, atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydweithredol, neu gydgyssylltiedig, ag eraill – gan helpu i greu Cymru yr hoffai pawb ohonom fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Bwriedir i hyn gefnogi dull integredig o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a ffocws ar roi llais i bobl a chymunedau yn y ffordd y caiff eu gwasanaethau eu darparu.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys yr angen i sicrhau cynaliadwyedd drwy gydweithredu, ac i ddatblygu atebion a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol hefyd.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan y Ddeddf yn darparu gwasanaethau mewn modd integredig a chydweithredol, gyda gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i asesu llesiant eu hardal ac i nodi amcanion cyffredin. Mae'n ofynnol i'r byrddau ystyried cyflwr llesiant pobl yn yr ardal, ac mae pobl â nodwedd warchoddedig gyffredin yn un o'r categorïau y cânt eu hannog i'w hystyried. Mae canllawiau statudol yn nodi disgwyliadau clir y dylai Byrddau ystyried effaith eu gwaith ar wahanol bobl yn y gymuned ac yn atgoffa aelodau o'u dyletswyddau unigol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Ddeddf yn nodi diffiniad o lesiant ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac yn deddfu'r egwyddor bod gan bawb yr hawl i gael ei glywed fel unigolyn er mwyn llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arno, a chael rheolaeth dros ei fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac yn rhoi gofyniad ar waith, drwy ei chod ymarfer Rhan 2, bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr anabl y mae angen cymorth arnynt.

Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol i Gymru

Mae Ffyniant i Bawb - y Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017 yn nodi ymrwymïadau allweddol Llywodraeth Cymru rhwng nawr a 2021, o dan bedair thema gyffredin:

- Ffyniannus a Diogel - datblygu economi sy'n lledaenu cyfleoedd a ffyniant ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- Iach ac Egnïol - gwella iechyd a lles a gweithio er mwyn symud y pwyslais o drin i atal.
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu - annog dysgu gydol oes ac uchelgais.
- Unedig a Chysylltiedig - creu'r cysylltiadau i ddod â phobl ynghyd, hwyluso twf economaidd, a gwneud Cymru yn genedl fwy hyderus.

Mae 'Ffyniant i Bawb' yn gosod ein hymrwymïadau mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut maent yn cyd-fynd â gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni ein nodau.

Datblygwyd y dull gweithredu trawslywodraeth unigol a nodir yn 'Ffyniant i Bawb' er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr ymrwymïadau, sut y gallwn eu cyfuno â'r gwasanaethau craidd a ddarperir gennym; sut y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau pwysig; a sut y gallwn weithio'n wahanol gyda'n partneriaid er mwyn cael mwy o effaith.

Mae'n cefnogi ein nodau parhaus i hybu cyfleoedd byw'n annibynnol i bobl anabl a gall gynnig ateb mwy effeithiol drwy fynd i'r afael â materion ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Un o'r negeseuon allweddol y tynnodd pobl anabl a'u sefydliadau sylw ati yn ystod ein hadolygiad diweddar o'r fframwaith oedd bod fframwaith deddfwriaethol a fframwaith polisi Llywodraeth Cymru yn gadarn, ond y gall y trefniadau ar gyfer eu gweithredu a'u cyflwyno'n lleol fod yn anghyson.

Mae'r cynllun gweithredu sy'n ategu'r fframwaith hwn wedi'i drefnu'n seiliedig ar bedair thema 'Ffyniant i Bawb'.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016 yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020, a'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd er mwyn eu cyflawni. [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020](#)

Datblygwyd yr Amcanion Cydraddoldeb yn dilyn gwaith ymgysylltu ac ymgynghori manwl â grwpiau gwarchoddedig ledled Cymru. Diben yr Amcanion Cydraddoldeb yw atgyfnerthu perfformiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd bob blwyddyn wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp gwarchoddedig.

Yn ystod 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Yn yr un modd â'r cynllun blaenorol, ein bwriad yw y bydd ein dull gweithredu yn ystyried gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ofalus. Mae adroddiad y Comisiwn 'A yw Cymru'n Decach? 2018', yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r materion a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb yng Nghymru. Caiff yr adroddiad ei drefnu fesul thema, gyda chwe phrif bennod yn ymdrin ag addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch, a chyfranogiad mewn cymdeithas. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fabwysiadu dull gweithredu tebyg. Bydd hefyd yn nodi egwyddorion cyffredin a ddylai lywodraethu ein holl waith i hyrwyddo cydraddoldeb. Yn ogystal, bydd ffocws clir ar sut y mae camau gweithredu yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl.

Gwaith Ymgysylltu Parhaus

Datblygwyd y fframwaith hwn o'r cychwyn cyntaf drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl anabl yng Nghymru a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Adlewyrchir eu cyfraniadau yn fanwl, yn arbennig ym Mhennod 3. Mae'r negeseuon hyn wedi ein helpu i nodi'r prif ffactorau yn yr holl feysydd hyn sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n atal pobl rhag byw'n annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymgysylltu mewn modd ystyrlon. Os ydym yn ymgysylltu, rydym yn gwrando. Byddwn yn parhau i ymgysylltu mewn sawl ffordd, gan gynnwys ar-lein, sianeli cyfathrebu, ymgynghori ffurfiol ac ymgysylltu cymunedol.

Ymgysylltu â phobl yw'r unig ffordd o wybod bod gwasanaethau o ddifrif yn darparu'r hyn sydd ei angen ac sydd ei eisiau ar bobl a gall esgor ar well syniadau a dulliau gweithredu mwy arloesol. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio "cydgynhyrchu" ein polisiau a'n rhaglenni. Hynny yw, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys pobl anabl, a fydd y pwysicaf yn eu plith, er mwyn dylunio, cyflwyno a gwerthuso mentrau newydd.

Pennod 2 – Pa Gynnydd a Wnaed?

i) DEDDFWRIAETH

Bu datblygiadau sylweddol ar lefel genedlaethol ers cyhoeddi'r Fframwaith blaenorol yn 2013, gan gynnwys deddfu'r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>
- Deddf Tai (Cymru) 2014
<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=8220>
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/enacted>
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=12055>
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/1/contents/enacted>

Mae'r holl Ddeddfau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cefnogi byw'n annibynnol. Mae 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014' yn arbennig yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalcwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Ddeddf yn nodi diffiniad o lesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae gan bawb, boed yn oedolion neu'n blant, yr hawl i gael eu clywed; i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i gael rheolaeth dros eu bywydau.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar eu dyletswyddau yn hyn o beth. Mae'r cod ymarfer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalcwyr anabl y mae angen cymorth arnynt, roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Mae'r Ddeddf hefyd yn ehangu cymhwysedd a hygyrchedd Taliadau Uniongyrchol, sy'n cynnig system bwysig y gall pobl ei defnyddio i arfer dewis, llais a rheolaeth er mwyn penderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Mae 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' (gweler Pennod 1 hefyd) yn nodi saith nod llesiant - i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae hefyd yn nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff hyn weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae hyn yn cynnwys y pum 'dull o weithio' er mwyn helpu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gyflenwi ar gyfer pobl (fel y nodir yn fanylach uchod).

Roedd 'Deddf Tai (Cymru) 2014' yn cynnwys darpariaethau wedi'u hanelu at foderneiddio a gwella amodau yn y sector tai a rentir yn breifat ac at wella arferion

landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo. Mae bellach yn ofynnol i landlordiaid preifat gofrestru, a lle y byddant yn gosod eiddo neu'n ymgymryd â gwaith rheoli eiddo i feddu ar drwydded, neu i benodi asiantiaid trwyddedig i ymgymryd â gwaith o'r fath. Yn ogystal â meddu ar drwydded, mae'n ofynnol i asiantiaid gofrestru hefyd.

Y bwriad yw y bydd hyn yn gwella safonau arfer gosod a rheoli eiddo yn y sector rhentu preifat.

Bydd 'Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016', sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, yn darparu fframwaith cyfreithiol wedi'i symleiddio ar gyfer rhentu yn seiliedig ar ddau fath o gontract meddiannaeth, a fydd yn disodli'r rhan fwyaf o drefniadau tenantiaeth presennol. Bydd hyn yn berthnasol i dai cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ac i dai a gaiff eu rhentu gan landlordiaid preifat. Caiff datganiadau contract ysgrifenedig enghreifftiol eu darparu. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn darparu math newydd o gontract meddiannaeth i unrhyw berson sy'n meddiannu eiddo ac y darperir gwasanaethau cymorth penodol iddo yn yr eiddo hwnnw, gan gynnwys cymorth i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn byw'n annibynnol, er enghraifft, oherwydd namau gwybyddol neu ddeallusol. Yn ogystal, bydd y Ddeddf yn ehangu hawliau olynu i ofalwyr. Nid yw'r ddeddfwriaeth tai bresennol yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn hyn o beth.

Budd i'r Gymuned

Mae polisi Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru yn annog y defnydd o "ofynion cymdeithasol" fel rhan o amodau contractau, er mwyn sicrhau gwerth am arian drwy ddarparu'r buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangaf posibl wrth drefnu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Un o brif amcanion y dull ar gyfer sicrhau Budd i'r Gymuned yw creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl 'ddifreintiedig', sy'n cynnwys pobl anabl. Mae'r polisi hefyd yn annog trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys â Busnesau a Gynorthwyr sy'n cyflogi, yn hyfforddi ac yn helpu pobl ddifreintiedig i symud i gyflogaeth brif ffrwd.

Contractau Neilltuedig

Mae 'Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015' yn cynnwys dwy ddarpariaeth ar gyfer contractau neilltuedig wedi'u cynllunio'n benodol i helpu prynwyr yn y sector cyhoeddus a'r cyrff hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn i ymdrin â nodau cynhwysiant cymdeithasol drwy gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan ddarparu mwy o annibyniaeth i bobl ddifreintiedig. Mae neilltuo contract o dan y naill ddarpariaeth neu'r llall yn caniatáu i brynwyr wahaniaethu o blaid busnesau â diben cymdeithasol. Dim ond y busnesau hynny sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol a all gyflwyno tendr. Yn arbennig, diben rheoliad 20 (Contractau neilltuedig) yw cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl anabl neu bobl ddifreintiedig.

ii) POLISIÂU A RHAGLENNI ERAILL

Ochr yn ochr â'r datblygiadau deddfwriaethol hyn, cyflwynwyd llawer o raglenni, polisïau a phrosiectau eraill gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf a ategodd nodau'r Fframwaith blaenorol, gan gynnwys:

- Cynllun Cyngor Da: Byw'n Well, sy'n helpu i gefnogi teuluoedd â phlant anabl ac yn eu helpu i gynyddu eu hincwm i'r eithaf a chael gafael ar fudd-daliadau.
- [Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyr a Chyfathrebu â Hwyr](#). Nod y Safonau hyn yw nodi'r safonau darparu gwasanaethau y dylai pobl â nam ar eu synhwyr ddisgwyl iddynt gael eu cyrraedd pan fyddant yn cael gofal iechyd yng Nghymru.
- Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi llunio canllaw ar gynnal dadansoddiadau ar safleoedd i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol. Dylai cynnal dadansoddiadau da o'r safle olygu y gellir gwneud penderfyniadau cynnar i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn hygyrch i bawb. [Dylunio Cynhwysol yn yr Amgylchedd Adeiledig](#)
- Cynnal Adolygiad Systemau o'r system cymhorthion ac addasiadau sy'n helpu pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Bydd canlyniad yr adolygiad yn llywio polisi cymhorthion ac addasiadau yn y dyfodol er mwyn atgyfnerthu a symleiddio'r broses bresennol. Disgwylir yr argymhellion terfynol erbyn diwedd 2019 fan bellaf.
- Cyhoeddi Safon Ansawdd Bysiau Cymru sy'n anelu at sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau bysiau lleol y gall teithwyr ei ddisgwyl yn rhesymol yn gyson ac ar gael i bawb ledled Cymru, ac y caiff gweithredwyr bysiau lleol eu hannog i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt i deithwyr. Mae'r Safon, sy'n wirfoddol, yn cynnwys gofynion hygyrchedd. [Safon Ansawdd Bysiau Wirfoddol Cymru](#)
- Dechreuodd y rhaglen Cymunedau am Waith ym mis Mehefin 2015. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth unigol wedi'i deilwra i unigolion drwy system brysbennu lle y mae cynghorwyr, mentoriaid a phartneriaid perthnasol eraill yn cydweithio er mwyn helpu'r unigolyn hwnnw i ddod o hyd i swydd. Erbyn mis Mai 2019, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â 21,284 o bobl yr oedd gan fwy na 6,079 ohonynt gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith ac yr oedd o leiaf 2,464 ohonynt yn bobl anabl. Mae'r rhaglen wedi helpu dros 7,680 o unigolion i ddod o hyd i swydd.
- Ariennir rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, gan weithio mewn partneriaeth â DWP. Mae PaCE yn targedu rhieni sy'n economaidd anweithgar 25 oed a throsodd, a rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Gofal plant fydd y prif ffactor sy'n atal pob

rhiant sy'n cofrestru ar PaCE rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Erbyn mis Ebrill 2019, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â 3,951 o bobl yr oedd gan fwy na 494 ohonynt gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith ac yr oedd o leiaf 243 ohonynt yn bobl anabl. Mae'r rhaglen wedi helpu dros 1,530 o unigolion i ddod o hyd i swydd. [Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth](#)

- Dechreuodd Cymunedau am Waith a Mwy ym mis Ebrill 2018. Mae'r Rhaglen gwerth £12 miliwn y flwyddyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn anelu at helpu i barhau i gyflwyno Cymunedau am Waith ac ehangu ei chyrhaeddiad. Mae'n darparu gwasanaethau mentora a chymorth dwys er mwyn ymgysylltu â chyfranogwyr ac ymdrin â'r rhwystrau cymhleth y mae'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i swydd. Mae'n golygu y gellir cynnig cymorth cyflogadwyedd i bobl sydd naill ai mewn tlodi neu y mae perygl y byddant mewn tlodi nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith, PaCE na rhaglenni rhanbarthol eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Erbyn mis Mehefin 2019, roedd y rhaglen wedi ymgysylltu â 9,953 o bobl ac wedi helpu 2,988 o unigolion i ddod o hyd i swydd. Dangosodd data diwedd mis Mawrth 2019 yn ystod blwyddyn gyntaf cyflwyno Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy fod 8% o gyfranogwyr y rhaglen wedi datgan anabledd a bod 21% o'r cyfranogwyr wedi datgan cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith.
- Ariannwyd [Prosiect Galluogi Cymru](#) gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei weithredu gan Anabledd Cymru, ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chanolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol. Gweithiodd y prosiect gydag oedolion a phobl ifanc anabl ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ac i wella dealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau i bobl anabl. Yn ogystal, cafodd dau sefydliad i bobl anabl, un yng Ngheredigion ac un yn Sir y Fflint, gymorth i ddod yn Ganolfannau Byw'n Annibynnol, i'w rhedeg fel mentrau cymdeithasol hunangynhaliol.
- Mae'r safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc yn nodi saith pwnc allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, sef:
 - Gwybodaeth - rhaid iddi fod yn hawdd i blant a phobl ifanc ei deall a gwneud penderfyniad hyddysg
 - Dewis - mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddewis cymryd rhan ac i weithio ar bethau sy'n bwysig iddynt
 - Dim Gwahaniaethu - mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae gennyhych yr hawl i gael eich trin yn deg
 - Parch - mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio barn. Mae eu safbwyntiau yn bwysig a rhaid eu parchu.
 - Bydd plant a phobl ifanc ar eu hennill - mae ganddynt yr hawl i ddysgu a bod cystal y gallant fod.
 - Adborth - mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaethau y maent wedi'u gwneud.
 - Gweithio'n well - dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth maen nhw'n ei wneud.

Derbyniwyd y safonau gan Lywodraeth Cymru ac fe'u hategir gan CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n nodi bod cyfranogiad plant yn greiddiol er mwyn gwella eu llesiant. Mae fersiwn lawn y safonau ar gael:

[Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc](#)

Addaswyd y safonau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc o dan yr enw '[Cael llais, cael dewis](#)'.

Pennod 3 – Materion a Godwyd drwy Waith Ymgysylltu ac Ymgynghori

Er y croesawyd y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n amlwg bod llawer mwy i'w wneud cyn y byddwn mewn sefyllfa lle y gall pobl anabl fanteisio ar yr un cyfleoedd â phawb arall.

Yn y bennod hon, rydym wedi crynhoi'r prif faterion a godwyd yn ystod y gyfres o gyfarfodydd, digwyddiadau ymgysylltu a'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd yn 2017, yn ogystal â'r ymgynghoriad ar y fframwaith a'r cynllun gweithredu a gynhaliwyd ddiwedd 2018.

Mae'r materion a restrir yma a'r camau gweithredu yn y bennod nesaf wedi'u nodi o dan bedair thema gyffredin 'Ffyniant i Bawb', y Strategaeth Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod y camau gweithredu yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

FFYNIANNUS A DIOGEL

Y nod yw creu economi i Gymru sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant unigol a chenedlaethol. Bydd hyn yn galluogi pobl i gyflawni eu huchelgeisiau a gwella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy; dileu'r rhwystrau y mae llawer yn eu hwynebu wrth gael swydd; a chreu'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, roedd 45.2% o bobl anabl rhwng 16 a 64 oed mewn swydd, o gymharu ag 80.3% o bobl nad ydynt yn anabl⁵ (ceir dolen i ystadegau a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd ar weithgarwch economaidd pobl anabl yn Atodiad 1). Mae'r ystadegau diweithdra ar gyfer rhai grwpiau yn llawer uwch e.e. i bobl ag anawsterau dysgu, gan adlewyrchu'r rhwystrau sylweddol y mae rhai pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith.

Materion a godwyd yn ystod gwaith ymgysylltu ac ymgynghori:

Cyflogaeth – Nid yw pob person anabl yn gallu ymgymryd â swydd gyflogedig; fodd bynnag, dylai pob un gael y cyfle i fyw bywyd ystyrion. Dywedodd pobl anabl wrthym fod y prif ffactorau sy'n eu hatal rhag gweithio yn cynnwys agweddau negyddol rhai cyflogwyr a chydweithwyr. Yn rhy aml, mae disgwyliadau pobl eraill yn rhy isel, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu pobl anabl i gyflawni eu potensial. Mae hefyd yn golygu bod cyflogwyr yn colli allan ar y buddiannau sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl anabl, o ran eu profiad, eu galluoedd a'u sgiliau. Awgrymwyd bod angen newid y duedd o gynnig gwaith gwirfoddol di-dâl yn unig i bobl anabl, a chafwyd ceisiadau am gyfleoedd go iawn i bobl anabl ymgymryd â swyddi ystyrion â thâl. Nodwyd bod gan Lywodraeth Cymru a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus ran bwysig i'w chwarae yn

⁵ Stats Cymru (2018). Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn a statws anabl, o Ebrill 2013 Cyrchwyd 19/09/18. URL: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013>

hyn o beth, a chafwyd cefnogaeth o blaid penodi Hyrwyddwyr Anabledd a chyflwyno cynlluniau gwobrau anabledd.

Dywedodd pobl anabl wrthym hefyd ei bod yn bwysig iawn iddynt gael eu cyflogi, nid yn unig o ran eu helpu i fyw'n annibynnol, ond er mwyn gwella eu hyder, eu hiechyd a'u lles. Roedd gwerthfawrogiad sylweddol o'r rhwydweithiau cymdeithasol a gaiff eu creu wrth weithio, a nodwyd bod hynny'n cyfrannu at eu lles.

Gall gwneud cais am swyddi fod yn heriol, a noda rhai pobl anabl fod angen cymorth arnynt i ymdrin â chwiliadau anhygyrch am swyddi ar-lein ac i ddeall gwybodaeth am swyddi. Gall rhwystrau ffisegol i adeiladau a chludiant gyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth i rai. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys lefelau cymharol isel o gymwysterau, a diffyg cyfleoedd i hyfforddi mewn sgiliau ac i ymgymryd â phrentisiaethau. Roedd rhai ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn cynlluniau i wella eu cyflogadwyedd ond roeddent yn siomedig bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth ar gael iddynt o hyd. Roedd pobl ifanc anabl yn awyddus i weithio ac o gael y cyfle, gallant gydgynhyrchu datrysiadau creadigol, cost isel er mwyn dod o hyd i swydd.

Roedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol hefyd, a hynny gan gyflogwyr a darpar gyflogeion, o'r cymorth sydd ar gael, er enghraifft drwy'r cynllun Mynediad at Waith, a all ariannu amrywiaeth o addasiadau i helpu pobl anabl i gael swydd neu i gadw swydd. Cafwyd ceisiadau am fwy o hyfforddiant er mwyn helpu i ddatrys y broblem hon, a gofynnwyd hefyd am wasanaeth atgyfeirio ffurfiol i bobl ifanc anabl sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg er mwyn dod o hyd i'r cymorth cyflogaeth anabledd arbenigol sydd ar gael yn eu cymunedau lleol.

Tai – Mae diffyg tai hygyrch yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector rhentu preifat a ddefnyddir yn aml gan bobl ifanc anabl sy'n awyddus i fyw'n annibynnol am y tro cyntaf. Yn hytrach, mae'r dewis o ran ble i fyw yn seiliedig ar yr hyn sydd gan wasanaethau i'w gynnig. Clywsom enghraifft o berson 21 oed yn gorfod symud i ddarpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn gan mai dyna oedd yr unig lefyd hygyrch a oedd ar gael. Gallai trefniadau gweithio mwy cydgysylltiedig rhwng adrannau cynllunio, adrannau tai ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol helpu i wella sefyllfaoedd o'r fath, ac awgrymwyd y dylai pobl anabl a gofalmwyr gymryd rhan uniongyrchol yn y broses.

Mae'r diffyg tai addas hefyd yn cyfyngu ar allu pobl anabl i symud o amgylch Cymru a gall hefyd effeithio ar eu lles a chyfyngu ar gyfleoedd addysgol a chyfleoedd am swyddi. Methodd un myfyriwr ag anabledd corfforol â symud i mewn gyda'i ffrindiau am nad oedd yr eiddo yn hygyrch. Roedd yn teimlo'n ynysig a bu'n rhaid iddo hefyd dalu costau rhentu uwch am lefyd hygyrch.

Ynghyd â thai hygyrch, roedd yr angen am dai fforddiadwy yn thema gyffredin, a gwnaed ceisiadau i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, ac i helpu pobl anabl i sicrhau blaendal am gartref ac i ymdopi â thaliadau morgais, o ystyried nad yw costau rhentu yn cymharu'n ffafriol â chost morgeisi.

Gwnaed sawl cais am Gofrestrau Tai Hygyrch, ac awgrymwyd y dylid sicrhau bod gwybodaeth am opsiynau a budd-daliadau tai yn gyfredol ac yn hawdd i'w deall/cael gafael arni.

Cyfeiriodd rhai pobl at y "dreth ystafell wely" a sut roedd wedi'u gorfodi naill ai i barhau i fyw gyda'u rhieni neu i symud i mewn i lety nad oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Yn aml, ni fydd datblygwyr preifat yn ystyried hygyrchedd wrth adeiladu cartrefi newydd er bod galw cynyddol am eiddo hygyrch o ystyried bod y boblogaeth yn heneiddio. Awgrymwyd y gellid defnyddio cymhellion a champau gorfodi fel dulliau posibl o ymdrin â hyn. Gwnaed cais hefyd am gamau i'w gwneud hi'n haws i rentwyr anabl herio eu landlordiaid mewn achosion o wahaniaethu.

Lle mae angen gwneud addasiadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes, mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau yn sicrhau eu bod yn addas at y diben drwy gynnwys y defnyddiwr terfynol yn y broses ddylunio ac wrth wneud penderfyniadau. Clywsom am enghreifftiau lle nad ymgynghorwyd â phobl am newidiadau i'w cartref a lle roedd yr addasiadau, o ganlyniad, wedi achosi anaf. Rhaid gwneud addasiadau angenrheidiol yn gyflym hefyd ac felly mae angen cael gwared ar fiwrocratiaeth.

IACH AC EGNÏOL

Y nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i gyflawni ein huchelgais o ffyniant i bawb, a chymryd camau sylweddol tuag at newid y meddylfryd o driniaeth i atal.

Rydym hefyd am sicrhau sector cymorth cymdeithasol cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru, sy'n cynnig gwasanaethau ataliol a gwasanaethau integredig yn y gymuned, gan helpu pobl i fyw bywydau annibynnol.

Canfu adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldebau ym maes mynediad at wasanaethau iechyd i bobl anabl yng Nghymru dystiolaeth o anghydraddoldeb mewn nifer o feysydd, gan gynnwys disgwyliad oes, llythrennedd iechyd, cyfathrebu hygyrch, a gwasanaethau iechyd meddwl.

https://llyw.cymru/adolygiad-or-dystiolaeth-ar-anghydraddoldebau-ym-maes-mynediad-wasanaethau-iechyd-yng-nghymru?_ga=2.121687304.264553863.1568376243-673169875.1551173521

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn cynnwys Graddfa Lles Meddwl Warwig-Caeredin (WEMWBS), sef graddfa yn cynnwys cwestiynau hunanasesu sy'n mesur lles meddwl. Mae'r sgoriau yn amrywio o 14 i 70, gyda sgôr uwch yn awgrymu lles meddwl cryfach. Roedd gan unigolion a nododd salwch, nam neu analluedd hirdymor sgôr WEMWBS sylweddol is (48.5) na'r rheini na wnaethant nodi cyflwr o'r fath (52.8).⁶

Materion a godwyd yn ystod gwaith ymgysylltu ac ymgynghori:

Roedd pobl anabl o'r farn y dylent allu cyflawni eu potensial ym mhob rhan o'u bywyd, wedi'u cefnogi gan system iechyd a gofal cymdeithasol hygyrch. Nid yw gwasanaethau bob amser mor hygyrch ag y gallent fod. Er enghraifft, mae angen

⁶ Llywodraeth Cymru, (2017). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17: Lles Meddwl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. URL: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/171010-national-survey-2016-17-mental-wellbeing-cy.pdf>

addasu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i bobl â nam ar eu synhwyrau er mwyn sicrhau preifatrwydd unigolion, diagnosis cywir a'u bod yn cael y driniaeth/gofal priodol. Mae cymorth cyfathrebu yn hanfodol, ac ni ddylai fod yn rhaid i gleifion orfod dibynnu ar eu staff cymorth, eu gofalwyr nac aelodau'r teulu i weithredu fel canolwyr, wrth wneud apwyntiadau nac yn ystod ymgynghoriadau meddygol. Nid yw'r slot 10 munud ar gyfer apwyntiad meddyg yn ddigon hir i bobl ifanc ag anawsterau dysgu ddeall yr hyn y mae'r meddyg yn ei drafod gyda nhw.

Awgrymwyd y gallai technoleg newydd, fel llwyfan ar-lein digidol, fod yn ddefnyddiol iawn wrth wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn sawl agwedd ar iechyd a chymorth cymdeithasol, er na ddylid ei defnyddio yn lle cyswllt personol lle roedd angen hynny, a chodwyd pryderon o ran sicrhau na fydd pobl anabl o dan ifantais os caiff technoleg ei defnyddio'n ehangach.

Thema gyffredin a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd y dylai iechyd a gofal cymdeithasol fod yn fwy integredig ac yn symlach, a gwnaed ceisiadau am drefniadau gweithio rhyngasiantaeth ac i gyllidebau gael eu cyfuno.

Noda rhai pobl ifanc anabl nad ydynt yn cael cynnig gwasanaethu iechyd rhywiol gan eu bod yn anabl, er bod ganddynt yr un hawl i gael gafael ar y wybodaeth hon ag unrhyw berson ifanc arall.

Mae oedolion, plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt iechyd a lles meddwl gwael na'u cymheiriaid nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, dywedodd pobl anabl wrthym oni bai eu bod yn wynebu argyfwng, na allant gael gafael ar gymorth. Mae angen gwneud mwy o ran 'cymorth ataliol' y gellid ei gynnig cyn i unigolion gyrraedd pwynt argyfwng, ac mae angen mewnbwn gan y sector gofal cymdeithasol/gwasanaethau iechyd yn hyn o beth.

Mae llai o weithgareddau wedi'u cynllunio i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol (e.e. clybiau dawn, nosweithiau cymdeithasol) yn cael eu cynnig oherwydd pwysau ar gyllidebau lleol. Nodwyd nad oedd penderfyniadau o'r fath yn ystyried y darlun cyfan gan eu bod yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl, gan arwain at effeithiau hirdymor negyddol ar iechyd a lles.

Mae angen cymorth ar rai pobl anabl er mwyn diwallu eu hanghenion hylendid personol. Gall hyn eu gwneud yn agored i niwed ac felly mae'n bwysig eu bod yn cael gwybodaeth hygyrch am gyffwrdd priodol ac amhriodol. Mae newidiadau o ran staff yn achosi gofid i bobl anabl ac maent yn hoffi cael cyfle i feithrin cydberthynas â'u gweithwyr cymorth.

Mae'r cyfnod o drosglwyddo i fod yn oedolyn yn her i bobl ifanc anabl. Dywed pobl ifanc anabl nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth pan fyddant am symud allan o gartref eu rhieni. Yn aml, mae rhieni yn ofalwyr hefyd, ac mae'n bosibl na fyddant yn barod i roi'r gorau i'r rôl honno, gan olygu y bydd y person ifanc yn poeni y caiff effaith andwyol ar eu perthynas â nhw. Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc anabl i fynychu grwpiau, defnyddio gwasanaethau eiriolaeth neu fynychu gweithdai i'w haddysgu ac i'w cyfeirio tuag at y cymorth priodol. Rhaid i wybodaeth leol am wasanaethau fod yn gyfredol, yn hawdd i'w deall/cael gafael arni ac ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

Clywsom fod toriadau i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol wedi arwain at ddyraniadau is ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ac o ganlyniad, bod oedolion a phobl ifanc anabl yn dod yn fwy ynysig, gan gael effaith andwyol ar eu lles. Mae rhieni a gafodd eu hasesu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel gofalwyr wedi nodi problemau iechyd meddwl. Mewn rhai achosion, er eu bod wedi cael y cymorth y darperir ar ei gyfer yn y Ddeddf, nid oedd gwasanaethau ar gael ar yr adeg yr oedd eu hangen e.e. dywed rhai eu bod yn gorfod rhag-drefnu gofal seibiant 6 wythnos ymlaen llaw. Cafwyd sawl cais am gyllid ychwanegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid cynnig mwy o gymorth ariannol lle y nodir angen am hynny, er enghraifft, darparu monitorau Lifeline a monitorau Cwmpo yn rhad ac am ddim i'r rheini sydd mewn perygl.

Gwnaed cais am hyfforddiant i bobl anabl, gan gynnwys plant a phobl ifanc a'u gofalwyr ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae rhieni yn ansicr o ran p'un a allant wrthod diwallu anghenion meddygol eu plentyn os ydynt yn teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hynny, a ph'un a oes gan weithwyr cymdeithasol yr hawl i edrych o amgylch eu cartref pan nad oes unrhyw faterion amddiffyn plant.

Fel rhan o brosiect Ymwneud yn Fwy â Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru, mae pobl ifanc anabl yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc anabl eraill ar hawliau a chyfranogiad. Mae'r prosiect seiliedig ar hawliau hefyd wedi datblygu ap sy'n hysbysu plant a phobl ifanc anabl am eu hawliau a sut i'w harfer. Gall hyn sicrhau bod ganddynt lais a rheolaeth yn ystod y broses asesu a chynllunio gofal gan arwain at ganlyniadau sy'n sicrhau lles.

UCHELGAIS A DYSGU

Y nod yw annog pawb i ddysgu drwy gydol eu hoes, gan eu hysbrydoli â'r uchelgais i wireddu eu potensial. Mae angen i Gymru ffyniannus gael pobl greadigol, medrus a hyblyg, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf yn sail i ddysgu a chyflawni gydol oes.

Yn 2017, y gyfran gyffredinol o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru a gyflawnodd o leiaf bum TGAU A*- C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a mathemateg, oedd 20.6%, ond y gyfran ar gyfer plant heb ADY oedd 66.6%⁷ (ceir dolen i ystadegau a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd ar gyflawniad academaidd disgyblion ag ADY yn Atodiad 1).

Mae gan wasanaethau gwybodaeth a chyngor dibynadwy, sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, ran bwysig i'w chwarae wrth addysgu pobl am eu hawliau a'u helpu i wneud dewisiadau hyddysg. Gall hyn hefyd gyfrannu at les drwy helpu pobl i helpu eu hunain, a gall atal problemau rhag gwaethygu.

⁷ Llywodraeth Cymru, (2018). Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion. Cyrchwyd 19/09/18. URL: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>

Materion a godwyd yn ystod gwaith ymgysylltu ac ymgynghori:

Addysg - Mae rhai pobl, gan gynnwys rhai darparwyr addysg a chyflogwyr, yn tybio o hyd na all pobl anabl ddysgu neu gael eu cyflogi neu nad ydynt am wneud hynny, a chafwyd cais i addysgwyr annog a helpu plant anabl i anelu'n uchel a chyflawni. Noda rhai plant a phobl ifanc anabl mai dim ond dysgu sgiliau bywyd y cânt eu hannog i'w wneud yn yr ysgol a'r coleg yn hytrach nag ennill cymwysterau academaidd, ond yr hoffent wneud cyfuniad o'r ddau. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i blant anabl gael cymorth mwy ysbrydoledig, llawn cymhelliant, er mwyn anelu at freuddwydion a nodau uwch o ran gyrfaoedd.

Mae'n bwysig bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael y cymorth priodol yn ystod y blynyddoedd cynnar iawn er mwyn iddynt allu manteisio ar addysg. Er enghraifft, mae angen i blant â nam ar eu golwg neu nam symudedd ddysgu sut i symud o amgylch yn ddiogel yn eu hamgylchedd er mwyn iddynt ddatblygu'r hyder sydd ei angen i fynd i'r ysgol. Gwnaed cais i wneud mwy i integreiddio plant i ysgolion prif ffrwd yn gynharach, gyda phwyslais ar yr ysgolion yn darparu amgylchedd cynhwysol er mwyn sicrhau na chaiff plant anabl eu hystyried yn wahanol, ond yn hytrach, y cânt eu derbyn yn llawn fel rhan o gymdeithas.

Mae cyfeillgarwch yn hanfodol er mwyn i blant anabl fwynhau'r ysgol. Mae bwlio yn broblem fawr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan rai ysgolion strategaethau effeithiol ar gyfer ymdrin â bwlio ond mae gormod o achosion o hyd lle nad oes unrhyw beth yn newid hyd yn oed pan fydd aelodau o staff yn ymyrryd. Awgrymwyd bod angen diweddarau'r Canllawiau Gwrthfwlio Parchu Eraill neu eu bwriad i sicrhau bod addysg ar gydberthnasau iach yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd i ysgolion.

Cynigiwyd newidiadau i'r system addysgol, gyda phlant anabl yn gallu manteisio ar amrywiaeth o arddulliau dysgu, fel arddulliau cyffyrddol, clywedol neu weledol. Mae angen pecyn hyblyg un-i-un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i deilwra at anghenion yr unigolyn. Er enghraifft, mae gwers awr o hyd yn rhy hir i rai plant anabl, y gall sesiynau dysgu byr fod yn fwy effeithiol ar eu cyfer. Gallai tablau cynghrair ar gynwysoldeb ysgolion a cholegau roi cyfle i bobl anabl a'u gwarcheidwaid wneud dewis hyddysg o ran ble i astudio neu hyfforddi. Mae ymateb cyflymach i symud plentyn anabl i raglen fwy galwedigaethol os nodir nad yw rhaglen academaidd yn addas iddo yn hanfodol er mwyn iddo allu dod o hyd i faes sydd o ddiddordeb iddo a ffordd o ymuno â'r byd gwaith ar ôl iddo gwblhau ei addysg.

Ceir rhwystrau ffisegol o hyd mewn llawer o ysgolion ledled Cymru, a gallai hyn olygu y bydd yn rhaid i blant anabl fynd i ysgolion ADY yn hytrach nag ymuno â'u ffrindiau a'u brodyr a'u chwirydd mewn addysg brif ffrwd.

Mae'r llwybrau dilyniant i rai pobl ifanc anabl symud i mewn i addysg bellach, gwirfoddoli neu gyflogaeth yn gyfyngedig. Dywedodd pobl ifanc ag anawsterau dysgu wrthym na chaiff profiad gwaith ei gynnig iddynt fel arfer, a hyd yn oed lle y cânt gynnig profiad o'r fath, yn aml nid oedd unrhyw gyfleoedd dilyniant. Gall hyn wneud i bobl ifanc anabl deimlo nad oes llawer o gymorth ar gael iddynt ac nad oes llawer o ddewis iddynt ar ôl gadael yr ysgol.

Dydwedodd oedolion anabl fod llai o ddsbarthiadau addysg bellach ac addysg i oedolion ar gael, gan gyfyngu ar eu hopsiynau dysgu a chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol. Mae cyfeillgarwch yn bwysig iawn er mwyn sicrhau lles ond, o ganlyniad i'r ffaith bod dosbarthiadau yn dod i ben, mae'r cyfleoedd i feithrin a chynnal cyfeillgarwch bellach yn fwy cyfyngedig.

Roedd rhai hefyd o'r farn y gallai hyn arwain at lai o bobl anabl yn datblygu i Addysg Uwch gan eu bod yn gallu cymryd mwy o amser i gyflawni'r gofynion o ran cymwysterau a bod angen dosbarthiadau AB arnynt er mwyn gwneud hynny. Nodwyd hefyd bod y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn hanfodol wrth helpu llawer o bobl anabl i fanteisio ar gyfleoedd Addysg Uwch mewn ffordd deg.

Nodwyd bod cyllid yn broblem, a gwnaed ceisiadau am arian i ysgolion allu prynu llechi, ffonau deallus a chyfrifiaduron, ac am gyllid i hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gymuned.

Yn gynyddol, cynigir gwasanaethau **gwybodaeth a chyngor** ar-lein, ac er bod hyn yn eu gwneud yn fwy hygyrch i rai, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar eraill i gael gafael arnynt. Nid oes gan bawb gyfrifiaduron, na'r sgiliau i'w defnyddio. Pwysleisiwyd na ddylai unrhyw berson anabl fod o dan anfantais oherwydd datblygiadau technolegol.

Mae angen fformatau hygyrch ar eraill neu help i ddod o hyd i atebion i ymholiadau penodol. Pan fydd gan bobl gwestiynau am y wybodaeth y byddant yn ei darllen ar-lein, dylai fod rhywun y gallant fynd ato i gael ateb, ond nid dyma'r achos bob amser.

Gall y swm o wybodaeth sydd ar gael ar-lein erbyn hyn achosi problemau i rai gan nad yw bob amser yn gywir nac yn ddibynadwy. Mae angen i bobl wybod pa wefannau y gellir ymddiried ynddynt.

Er y gall gwasanaethau cyngor wyneb-yn-wyneb, fel Cyngor ar Bopeth, fod yn ddefnyddiol i rai, yn aml mae ganddynt restrau aros neu dim ond cyngor cyffredinol y byddant yn ei ddarparu.

UNEDIG A CHYSYLLTIEDIG

Y nod yw creu cenedl lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn eu hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd. Cefnogir hyn drwy feithrin y cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac i Gymru ddod yn genedl hyderus.

Materion a godwyd yn ystod gwaith ymgysylltu ac ymgynghori:

Hygyrchedd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus oedd y mater a godwyd amlaf gan bobl anabl yn ystod y broses ymgysylltu. Dywedodd pobl anabl fod methu â theithio o amgylch y gymuned leol a thu hwnt yn effeithio ar eu gallu i ymgymryd â chyflogaeth, i fynychu apwyntiadau, i ddefnyddio gwasanaethau hamdden a gwasanaethau cyhoeddus neu ddim ond i gwrdd â theulu a ffrindiau. Felly, nodwyd bod ffactorau o'r fath sy'n atal pobl anabl rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn cyfrannu at unigrwydd ac unigedd cymdeithasol. Mae'n rhaid i rai plant a phobl ifanc

anabl ddibynnu ar rieni i'w hebrwng yn ôl ac ymlaen o wasanaethau a gweithgareddau gan na allant ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar eu pen eu hunain. Felly awgrymwyd y dylid cynnig hyfforddiant teithio i bob person ifanc anabl er mwyn iddynt fod yn fwy annibynnol.

Mae'r diffyg lle ar fysiau i sawl person anabl deithio ar yr un pryd yn broblem, felly hefyd unrhyw benderfyniad sydyn i deithio ar drên os ydych yn defnyddio cadair olwyn gan fod yn rhaid trefnu cymorth ymlaen llaw er mwyn gwneud hynny. Awgrymwyd y dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb anabledd, gydag arweiniad gan bobl anabl a sefydliadau anabledd arbenigol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o'r hyfforddiant. Gwnaed ceisiadau hefyd i lansio ymgyrch gyhoeddus i fynd i'r afael â'r achosion o wahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a dadleuwyd y dylai ddarparwyr trafndiaeth fod yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac am eu cyfrifoldebau i bobl anabl. Awgrymwyd y dylid cydgysylltu a chynnig cymhellion i ddarparu trafndiaeth gymunedol, er enghraifft drwy allu llogi ceir am gost isel a threth ostyngol, a nodwyd bod y gallu i deithio am brisiau gostyngol yn bwysig o ystyried cost uchel trafndiaeth gyhoeddus/gymunedol. Gwnaed cais i sicrhau bod gwell gwybodaeth sain a gweledol ar gael, a chydnabuwyd y problemau penodol sy'n gysylltiedig â theithio o amgylch ardaloedd gwledig.

Roedd symud o gwmpas mewn mannau cyhoeddus yn broblem i lawer o bobl anabl, a nododd eu bod wedi cael problemau o ran rhwystrau ar balmentydd, gan gynnwys dodrefn stryd, cyflwr gwael arwynebeddau a pharcio anystyriol.

I rai, er nad oedd mynedfa adeiladau fel arfer yn peri gormod o broblem, roedd rhwystrau yn eu hwynebu wrth symud o gwmpas y tu mewn i'r adeilad. Roedd y rhain yn cynnwys grisiau, diffyg arwyddion clir a diffyg lifftiau. Nodwyd llawer ei bod yn anodd symud o gwmpas ysbytai a dod o hyd i'r adran briodol, a gwnaed cais am doiledau a chyfleusterau newid mwy hygyrch i bobl anabl eu defnyddio ym mhob adeilad cyhoeddus.

Clywsom hefyd nad oes digon o gyfleoedd i bobl anabl ymgymryd â gweithgareddau hamdden, a'i bod yn anodd dod o hyd i fannau hygyrch yn y gymuned i gynnal digwyddiadau cymdeithasol. Dim ond drwy gael cymorth gan gynorthwyr personol/gweithwyr cymorth y gall rhai pobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae'n bwysig eu bod yn cael hyfforddiant i ddeall eu rôl ac nad ydynt yn oramddiffynnol. Awgrymwyd hefyd y dylid enwi ac adolygu gwasanaethau/lleoliadau da a drwg, o bosibl ar ffurf debyg i'r sgoriau hylendid bwyd y mae'n rhaid i allfeydd bwyd eu harddangos.

Er y cydnabuwyd bod gwaith wedi'i wneud i annog pobl anabl i bleidleisio ac i sefyll ar gyfer etholiadau, dywedodd rhai fod rhwystrau yn bodoli o hyd, gan gynnwys mynediad ffisegol i adeiladau, diffyg cymorth cyfathrebu ac agweddau negyddol. Yn ogystal, codwyd pryder o ran y ffaith bod diffyg cyllid i ddarparu cymorth yn atal pobl anabl rhag gwneud cais am rolau cyhoeddus a chyflawni rolau o'r fath, a chyfeiriwyd hefyd at y ffaith mai Cymru oedd yr unig wlad ym Mhrydain Fawr nad oes ganddi gynllun Mynediad i Swyddi Etholedig, gan olygu bod pobl anabl sy'n awyddus i

gymryd rhan yn y maes gwleidyddol o dan anfantais o gymharu â'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.

Dywedodd pobl ifanc anabl fod y rhan fwyaf o'r grwpiau cyfarfod sydd ar gael iddynt yn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu neu'n cael eu cynnal fel rhan o brosiectau penodol, ac nad oes llawer o lwyfannau iddynt gymryd rhan mewn materion gwleidyddol neu ddysgu am eu hawliau. (Un eithriad i hyn yw Vale Youth Speak Up, sef grŵp o blant a phobl ifanc anabl rhwng 16 a 25 oed o Fro Morgannwg. Mae'n gweithio i nodi a mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu a bwlio er mwyn helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r grŵp wedi defnyddio dulliau arloesol er mwyn cyfleu'r neges y gall pobl anabl ragori pan wrandewir arnynt a phan gânt y cymorth priodol).

Yn fwy cyffredinol, dywedodd pobl wrthym fod angen cysylltu camau gweithredu o fewn pob maes polisi â'r agenda llesiant; roedd pobl anabl o'r farn fod darparwyr gwasanaethau yn aml yn anelu'n rhy isel wrth ddarparu gwasanaethau i bobl anabl, gan ymdrechu i fodloni gofynion sylfaenol yn unig. Y gobaith oedd y byddai gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn helpu yn hyn o beth drwy annog cyrff cyhoeddus i gynnwys pobl anabl leol mewn polisiau a chynlluniau o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na rhagdybio beth sydd ei angen arnynt.

Materion Cyffredin:

Roedd rhai materion a oedd yn gyffredin i'r pedair thema, fel diffyg gwybodaeth a chynngor hygyrch. Er enghraifft, o ran opsiynau tai, pa grantiau sydd ar gael, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a gwybodaeth am drafnidiaeth i deithwyr. Awgrymwyd y dylai'r wybodaeth a'r cynngor hwn fod ar gael ac yn hygyrch i bobl ag unrhyw namau.

Roedd anghysondeb wrth ddarparu gwasanaethau lleol ac i ba raddau mae darparwyr gwasanaethau lleol yn hyrwyddo ymdrechion i fyw'n annibynnol yn fater pwysig i rai. Mewn rhai ardaloedd, ymddengys nad oes llawer o waith ymgysylltu â phobl anabl yn ystod y broses o ddatblygu polisiau a rhaglenni newydd, sy'n golygu yn aml fod angen cymryd camau adferol ar gam diweddarach, gan wastraffu amser ac adnoddau. Yn wir, roedd cynnwys pobl anabl, a'r sefydliadau Trydydd Sector sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl, yn ystod pob cam o'r broses gwneud penderfyniadau yn gais cyffredin.

Roedd rhwystredigaeth hefyd na chafwyd mwy o gefnogaeth o blaid datblygu mentrau cymdeithasol a sefydliadau cydweithredol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol mewn ffyrdd sy'n cynnwys yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau wrth eu dylunio a'u gweithredu, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfeiriwyd at y Model Cymdeithasol o Anabledd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau drwy gydol y broses ymgysylltu ac ymgynghori, a chyflwynwyd llawer o sylwadau am yr angen i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu newydd gynnwys dangosyddion, terfynau amser a thargedau penodol. At hynny, pwysleisiodd llawer o bobl, er mwyn i bobl anabl allu byw o ddifrif yn annibynnol, ei bod yn hanfodol, yn eu barn nhw, i sicrhau trefniadau gweithio

cydgysylltiedig a threfniadau cydgynhyrchu bob amser, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, pobl anabl, y trydydd sector, y sector preifat a'r gymuned.

Cyflwynwyd sylwadau am faterion fel unigedd cymdeithasol ac unigrwydd, yn ogystal â materion fel tlodi a budd-daliadau, a gwnaed cais am fwy o gyllid gan lawer o'r rheini yr ymgysylltwyd/ymgyngorwyd â nhw.

Pan ofynnwyd i bobl anabl beth yn rhagor y gellid ei wneud i ddileu'r rhwystrau i fyw'n annibynnol, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod angen mwy o ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb anabledd a bod angen i ddarparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd wella eu hagwedd.

Nododd un ymatebwr:

"Byddwch yn garedig a pheidiwch â bod ofn siarad â ni neu ofyn pa gymorth sydd ei angen arnom. Rydym yn fwy na pharod i helpu a byddwn yn rhoi cyngor os dewch i siarad â ni yn gyntaf. Mae gennym farn gref ac rydym am gael ein hystyried, nid yn unig fel pobl anabl, ond fel pobl ifanc hefyd". [Cyfieithiad o ddyfyniad]

Pennod 4 – Strategaeth Llywodraeth Cymru: Ymrwymadau a Dulliau

Mae'r bennod hon yn nodi'r dull gweithredu strategol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi ar waith er mwyn helpu pobl anabl yng Nghymru, gan gydnabod eu bod yn aml yn parhau i wynebu lefelau uchel o dlodi a gwahaniaethu yn ogystal â chyfleoedd cyfyngedig i fanteisio ar addysg, cyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau.

Mae'r bennod yn cynnwys nifer o ymrwymadau allweddol, gan adeiladu ar benodau blaenorol y fframwaith, sy'n crynhoi'r prif ffyrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phobl anabl ac asiantaethau eraill i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion, gan anelu bob amser at ddileu pa rwystrau bynnag sydd o bosibl yn atal pobl anabl rhag cyflawni eu potensial a chyflawni eu huchelgeisiau.

Adlewyrchir yr ymrwymadau hyn yn y cynllun gweithredu sy'n ategu'r fframwaith, sy'n nodi'n fanylach sut y cânt eu rhoi ar waith. Caiff y Cynllun Gweithredu ei ddiweddarau'n aml wrth i amgylchiadau newid ac wrth i gamau gweithredu penodol gael eu cwblhau, ond bydd yr ymrwymadau a nodir isod yn parhau yr un fath, er mwyn darparu sail ar gyfer yr holl waith a wnawn gyda phobl anabl ac ar eu cyfer.

Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn rhan annatod o ddeddfwriaeth yng Nghymru ac yn cael eu hystyried wrth i Lywodraeth Cymru lunio polisiau a ffyrdd o weithio.

Mae'r bennod hefyd yn nodi'r prif ddulliau, systemau ac adnoddau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i sicrhau y caiff yr ymrwymadau hyn eu rhoi ar waith yn effeithiol ac i annog darparwyr gwasanaethau a sefydliadau eraill yng Nghymru i weithredu'n unol â'r un egwyddorion. Rydym yn ymwybodol y bydd camau gweithredu lleol ac arweinyddiaeth a chymorth parhaus gan ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru yn hollbwysig wrth sicrhau newid cadarnhaol i bobl anabl.

A. YMRWYMIADAU

Hawliau Pobl Anabl

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn cynnwys bwrw ati i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o gynnwys y confensiynau hyn a chonfensiynau eraill y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y caiff pobl anabl gynnig yr un cyfleoedd bywyd â phawb arall. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus penodedig i bennu amcanion sy'n sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni'r nodau llesiant ac yn cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny. Bydd y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd hwn yn cyfrannu at y broses hon. Caiff y Fframwaith a'i Gynllun Gweithredu eu cynnwys fel rhan o waith ehangach

Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn y dyfodol.

Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol a bydd yn gweithio i wella dealltwriaeth o'r Model ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a thu hwnt, er mwyn sicrhau y caiff ei adlewyrchu mor eang â phosibl yn ein polisiau a'n rhaglenni. Bydd y diffiniad o'r Model Cymdeithasol a nodir ym Mhennod 1 y Fframwaith hwn yn darparu sail ar gyfer y gwaith hwn, gan gydnabod bod angen newid sylfaenol o ran ein dulliau gweithredu er mwyn gwneud hynny.

Ymdrechion Ystyrion i Ymgysylltu, Cynnwys a Chydgynhyrchu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth profiad personol ac rydym yn ymrwymedig i gynnwys pobl â phrofiadau o'r fath mewn ffordd ystyrion. Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn aml â phobl anabl er mwyn nodi a thrafod y materion sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt ac sydd fwyaf pwysig iddynt ac er mwyn galluogi pobl anabl i gyflwyno sylwadau a rhoi cyngor ar bolisiau, rhaglenni a datrysiadau i broblemau, wrth iddynt gael eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn cydgynhyrchu ein polisiau a'n rhaglenni â phobl anabl drwy eu cynnwys yn llawn wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn sicrhau y caiff hawliau pobl anabl eu parchu yn ein polisiau a'n rhaglenni.

Iaith Briodol

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio iaith, terminoleg a delweddau sy'n cyfleu hawliau pobl anabl a chydraddoldeb, a'r ffaith ei bod wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, ym mhob gohebiaeth, cyhoeddiad a chyfrwng. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad er mwyn helpu eraill i wneud yr un fath. Fodd bynnag, bydd yn parchu dewisiadau unigolion o ran sut yr hoffent gyfeirio atynt eu hunain neu ddisgrifio eu hunain.

Cydggyfeiriadedd

Fel y nodir ym Mhennod 1, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nodweddion ac amgylchiadau personol eraill fel oedran, ethnigrwydd, incwm a rhywioldeb yn aml yn effeithio ar fywydau pobl anabl hefyd. Ystyr cydggyfeiriadedd yw'r ffordd y mae ffactorau o'r fath yn gorgyffwrdd ac yn cydgysylltu.

Ni ddylid diffinio unrhyw un gan gyfeirio at ei nam yn unig. Yn lle hynny, dylid dylunio gwasanaethau a chymorth mewn ffyrdd sy'n ystyried amgylchiadau cyffredinol pobl, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig eraill lle y bo'r nodweddion hynny yn berthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ystyried materion cydggyfeiriadol o'r fath wrth ddatblygu polisiau a chomisiynu gwasanaethau, a bydd yn annog eraill i wneud yr un fath.

Gwybodaeth a Lleoliadau Hygyrch

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio er mwyn ymdrin â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth gael gafael ar wasanaethau drwy sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch i bawb a bod ein polisiâu yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd.

Darperir dogfennau ymgynghori mewn amrywiaeth o fformatau e.e. Print Bras, Hawdd i'w Darllen a Fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Cynhelir gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu mewn adeiladau a lleoliadau hygyrch a chânt eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys pobl ag amrywiaeth o namau.

Hyfforddiant ac arweiniad i staff

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo cyfleoedd o'r fath a dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ym maes cyflogaeth ac mae'n disgwyl i bob un o'i chyflogeion yng Nghymru arddel yr un gwerthoedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod esiampl bositif drwy ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a chymorth i staff a bydd yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill i'w hannog i wneud yr un fath.

Hyrwyddo Cydraddoldeb

Er ei bod yn bwysig cydnabod lle mae angen gwella polisiâu, mae hefyd yn bwysig dathlu pan fydd sefydliadau wedi rhoi polisiâu llwyddiannus ar waith. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ystyried y math hwn o weithredu cadarnhaol mewn meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried opsiynau ar gyfer dull gweithredu newydd i annog sefydliadau i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda phobl anabl ac yn eu cefnogi, gan gynnwys staff, cwsmeriaid a'r cyhoedd.

Camau Gweithredu sy'n gysylltiedig â Pholisïau a Gwaith Monitro

Mae polisiâu Llywodraeth Cymru a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ategol yn nodi sut rydym yn ymateb i'r materion a wynebir gan bobl anabl. Caiff y Cynllun Gweithredu hwn ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau cyfnewidiol, ond bydd yn parhau i adlewyrchu'r egwyddorion a'r ymrwymadau sylfaenol a nodir yn y Fframwaith hwn. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ym mhob un o gyfarfodydd Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru ac o leiaf unwaith y flwyddyn i Fwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

B. DULLIAU

Er mwyn rhoi'r ymrwymadau hyn ar waith, bydd angen amrywiaeth eang iawn o weithgarwch ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ac yn llawer ehangach. Bydd angen gwaith cynllunio gofalus, arweinyddiaeth gadarn ac ymdrech barhaus gan lawer o sefydliadau er mwyn cyflawni newid cadarnhaol. Er bod y Cynllun

Gweithredu yn darparu gwybodaeth fanylach am sawl maes gwaith, mae rhai dulliau ac adnoddau cyffredin a fydd yn sail i'r holl weithgareddau hyn, er mwyn sicrhau cynnydd cyson dros amser.

Amlinellir y prif adnoddau hynny isod. Bydd yn gwbl amlwg nad i anabledd yn unig y maent yn berthnasol. Serch hynny, dylai'r adnoddau hyn, os cânt eu defnyddio'n briodol a chyda'i gilydd, mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y fframwaith hwn a'r ymrwymadau a nodir uchod, helpu i sicrhau y caiff hawliau pobl anabl eu parchu ac y caiff y ffactorau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas eu dileu.

Asesiadau Effaith

Mae arfarnu effaith – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol – yn rhan hanfodol o ddatblygu polisiâu neu lunio cynlluniau cyflenwi a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl. Yn gyffredinol, bydd polisiâu, rhaglenni, buddsoddiadau a deddfwriaeth yn llwyddiannus os cânt eu hasesu'n briodol o ran eu heffaith gyffredinol cyn penderfynu arnynt a'u rhoi ar waith. O'r camau cynharaf, cânt eu datblygu gyda'r bwriad o sicrhau'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gorau posibl – nid dim ond ar y cychwyn, ond yn yr hirdymor. Mae asesu effaith yn ein helpu i dargedu adnoddau prin tuag at y camau gweithredu a gaiff yr effaith fwyaf ar lesiant. Mae asesiad effaith da yn:

- gwrando ar ddinasyddion ac yn dangos yn glir eu bod wedi cael eu clywed;
- ein galluogi i gynyddu ein heffeithiolrwydd i'r eithaf;
- ein helpu i nodi unrhyw effeithiau negyddol a gaiff ein penderfyniadau a'u hosgoi, eu datrys neu eu lliniaru;
- adrodd hanes sut a pham y gwnaed penderfyniad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig, sy'n helpu i sicrhau arfer da yn y maes hwn ac yn annog dull gweithredu cynhwysol. Mae cydraddoldeb yn agwedd allweddol, ynghyd ag ystyried materion eraill fel hawliau plant, y Gymraeg, effeithiau amgylcheddol, cyfiawnder a phreifatrwydd.

Bydd defnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn effeithiol yn cynnwys ystyried effaith y polisi neu'r weithgaredd arfaethedig ar bobl anabl (a nodweddion gwarchoddedig eraill) a bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â phobl anabl (ac eraill) o gam cynnar a thrwy gydol y cam datblygu a'r cam cyflenwi.

Cyllid a Llythyrau Cylch Gwaith

Mae caffael, grantiau a chyllid ymhlith y dulliau pwysicaf a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae llythyrau cylch gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff a noddur fel Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu sylfaen hanfodol ar gyfer gwaith sefydliadau o'r fath ac yn helpu i bennu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau gwaith blynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn cyflawni'r egwyddorion a nodir yn y fframwaith hwn a chyflawni yn erbyn yr ymrwymadau uchod, y bydd angen iddynt

gael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau ariannu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn llythyrau cylch gwaith. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru a'r sefydliadau a ariennir fydd penderfynu ar fanylion pob achos a chytuno arnynt, gan gynnwys y ffordd orau o gyfuno cymorth i bobl anabl â threfniadau eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith a gaiff ei ariannu yn gwbl gynhwysol ac yn adlewyrchu'r dull gweithredu cydgyfeiriadol gorau posibl.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys Rheoliadau Cymru 2011 (gweler Pennod 1), yn adnodd cyfreithiol hanfodol o ran diogelu cydraddoldeb. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yw'r corff rheoleiddio statudol sy'n monitro Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r ddyletswydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'r Comisiwn i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ddyletswydd ac i sicrhau bod trefniadau adrodd, monitro a gorfodi yn ddigonol ac yn effeithiol.

Yn unol â'r systemau a'r adnoddau eraill yn yr adran hon, nid yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ymwneud â phobl anabl yn unig. Serch hynny, mae'n ffordd bwysig iawn o ddiogelu hawliau ac anghenion pobl anabl yng Nghymru.

Hyfforddiant a Chanllawiau

Un o'r ymrwymadau uchod yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod esiampol bositif drwy ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a chymorth i staff a bydd yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill i'w hannog i wneud yr un fath. Mae hyn yn cydnabod bod hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth o egwyddorion a nodau'r fframwaith hwn o fewn Llywodraeth Cymru, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn ehangach.

Yn yr un modd, mae gan ganllawiau – gan gynnwys canllawiau ffurfiol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth, dogfennau cynghori anffurfiol a mathau eraill o ddeunyddiau cyhoeddusurwydd a deunyddiau i'r cyfryngau – ran i'w chwarae wrth ehangu dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion fel y Model Cymdeithasol o Anabledd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

CASGLIAD

Ni ellir cyflawni nodau'r fframwaith hwn na chyflawni'r ymrwymiad yn y bennod hon drwy un gyfres linol o gamau gweithredu â therfynau amser penodedig. Yn hytrach, bydd angen defnyddio'r dulliau a'r adnoddau a amlinellir uchod mewn ffordd hyblyg a chreadigol ar draws llawer o sefydliadau ac yn yr hirdymor. Bydd rhai camau gweithredu penodol, megis dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn chwarae rhan allweddol wrth i ni symud ymlaen. Bydd angen ymdrech barhaus dros gyfnod o sawl blwyddyn er mwyn cyflawni rhai o'r lleill, fel yr hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd.

Bydd y Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith yn parhau i ddarparu mwy o fanylion am amrywiaeth eang o weithgareddau penodol, a bydd fforymau fel y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd a'r Bwrdd Cydraddoldeb Strategol yn sicrhau atebolrwydd yn erbyn y Fframwaith cyfan ac yn erbyn camau gweithredu penodol. Yn anad dim efallai, bydd ymgysylltu'n gyson â phobl anabl ar bob lefel yn parhau'n allweddol er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir yn gynnydd gwirioneddol ac ystyrlon.

Atodiad 1

Dolenni i Ystadegau ar Anabledd

Mae'r dolenni canlynol yn cynnwys ystadegau a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd mewn perthynas â phobl anabl yng Nghymru.

- Cyflawniad academaidd yn ôl angen addysgol arbennig (AAA):
<https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>
- Gweithgarwch economaidd yn ôl anabledd:
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013>
- Risg o fod mewn tlodi incwm cymharol gan ystyried a oes anabledd yn y teulu:
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/>
- Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl anabledd:
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-agegroup>
- Oedolion sydd wedi dioddef unwaith neu fwy yn ôl salwch neu anabledd hirdymor:
<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/dataset/s/thenatureofviolentcrimeappendixtables?:uri=peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/thenatureofviolentcrimeappendixtables>
- Troseddau casineb yn ymwneud ag anabledd a gofnodir gan yr heddlu:
<https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables>
- Ymgeiswyr a chynghorwyr Llywodraeth Leol yn ôl anabledd:
https://llyw.cymru/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-leol-2017?_ga=2.183052197.264553863.1568376243-673169875.1551173521
- A yw Cymru'n Decach?
<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf>

Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

CYNLLUN GWEITHREDU

Ffyniannus a Diogel

Camau gweithredu

Adran Llywodraeth Cymru

1. Byddwn yn:

Rhoi'r Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru ar waith er mwyn helpu pobl o oedran gweithio i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac i ddod o hyd i swydd barhaus a'i chadw. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), er mwyn deall a lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl ac eraill rhag dod o hyd i swydd barhaus a gwneud cynnydd yn y swydd honno.

(gellir ychwanegu dolen i'r Cynllun Gweithredu Cyflogadwyedd ar ôl cwblhau'r cynllun hwnnw)

Cyflogaeth a Sgiliau

2. Byddwn yn:

Rhoi dull gweithredu trawslywodraeth ar waith er mwyn cynyddu nifer y bobl anabl sy'n gweithio drwy gymorth wedi'i deilwra'n benodol i unigolion oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i swydd barhaus a chadw'r swydd honno. Byddwn yn cymryd camau i newid agweddau cyflogwyr, lleihau'r stigma a rhoi gwell cymorth i gyflogwyr recriwtio a chadw pobl anabl.

Cyflogaeth a Sgiliau / Dyfodol Ffyniannus

3. Byddwn yn:

Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun Mynediad at Waith yng Nghymru. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac eraill drwy ein rhwydweithiau cymorth cyflogaeth i sicrhau y caiff cynllun Mynediad at Waith DWP ei hyrwyddo ac mae ymdrechion sylweddol ar waith i wella ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ac unigolion o ran sut y gall y cynllun helpu pobl anabl, y rheini â chyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith i barhau mewn swydd neu i symud i mewn i swydd, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy mewn partneriaeth â DWP i hyrwyddo'r cynllun. Byddwn yn parhau i geisio cymorth gan y cynllun Mynediad at Waith er mwyn cynnig interniaethau a phrentisiaethau lle y bo'n ymarferol er mwyn helpu pobl anabl i ddod o hyd i waith.

Dyfodol Ffyniannus

<p>4. Byddwn yn:</p> <p>Parhau i roi cymorth i'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, drwy ein rhaglenni Cymunedau am Waith a PaCE, a rhaglen newydd Cymunedau am Waith a Mwy a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2018. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig gwasanaeth mentora a chymorth dwys, hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith er mwyn galluogi pobl i ddod o hyd i swydd barhaus.</p>	<p>Dyfodol Ffyniannus / Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar</p>
<p>5. Byddwn yn:</p> <p>Defnyddio Busnes Cymru i hyrwyddo cyfleoedd hunangyflogaeth a chyflogaeth i bobl anabl drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau a sianelau'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Gweithio gydag entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol er mwyn annog entrepreneuriaeth ymhlith ieuenctid drwy raglen Syniadau Mawr Cymru.</p>	<p>Entrepreneuriaeth</p>
<p>6. Byddwn yn:</p> <p>Cyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, sy'n amlinellu ein hymrwymiad i ddileu rhwystrau posibl sy'n atal pobl anabl rhag manteisio ar y rhaglen prentisiaethau. Mae'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn helpu i recriwtio mwy o brentisiaid anabl yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ariannu hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn darparu strwythur cefnogol i'r rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i'w helpu i gynyddu nifer y bobl anabl a'r bobl o grwpiau gwarchoddedig eraill sy'n ymgymryd â phrentisiaethau. • Darparu cyngor gyrfaoedd ehangach ar brentisiaethau i bobl anabl drwy adnodd Canfod Prentisiaeth Gyrfa Cymru. • Codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth prentisiaethau ymhlith unigolion, rhieni a gofalwyr gan ddefnyddio astudiaethau achos go iawn i sicrhau bod pobl anabl yn teimlo bod y rhaglen Brentisiaeth yn llwybr addas iddynt. 	<p>Addysg Bellach a Phrentisiaethau</p>

<p>7. Byddwn yn:</p> <p>Defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd fel sail i'n polisiau cyflogaeth a'n dulliau recriwtio a byddwn yn rhannu'r dull gweithredu, y polisiau a'r gweithdrefnau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith er mwyn helpu ein cyflogeion anabl fel rhan o ymdrech ehangach i ddileu rhwystrau cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru.</p>	<p>Adnoddau Dynol</p>
<p>8. Byddwn yn:</p> <p>Sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Anabledd i ymgysylltu â gwahanol gyflogwyr ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar asedau, sgiliau ac entrepreneuriaeth pobl anabl; mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol yn eu prosesau recriwtio; ac i helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio gyda'r sector anabledd, cyflogwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod y broses recriwtio a chyflogi yn cael ei gweithredu mewn modd cynhwysol.</p>	<p>Cydraddoldeb / Diwygio Lles / Dyfodol Ffyniannus</p>
<p>9. Byddwn yn:</p> <p>Datblygu cynllun gwobrwyo anabledd i gyflogwyr yng Nghymru a fydd naill ai'n adeiladu ar Hyderus o ran Anabledd neu'n gynllun newydd a fydd yn annog cyflogwyr i geisio bod yn fwy cefnogol o bobl anabl. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau anabledd a sefydliadau gwirfoddol i ystyried anghenion penodol Cymru wrth ddatblygu cynllun, gan wneud y mwyaf o'r cyfryngau sy'n bodoli i annog cyflogwyr i weithredu drwy'r Contract Economaidd.</p>	<p>Cydraddoldeb / Diwygio Lles / Dyfodol Ffyniannus</p>
<p>10. Byddwn yn:</p> <p>Cynnal Adolygiad o'r Gwariant a'r Broses Dyrannu Cyllid ar gyfer Addasiadau Tai sy'n helpu pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Bydd canlyniad yr Adolygiad yn llywio polisi cymhorthion ac addasiadau yn y dyfodol er mwyn atgyfnerthu a symleiddio'r broses bresennol. Disgwylir yr argymhellion terfynol erbyn diwedd 2019 fan bellaf. Yn ogystal, mae swyddogion yr Adolygiad yn gweithio gyda rhanddeiliaid i roi'r argymhellion a wnaed yn adolygiad y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Archwilydd Cyffredinol o Addasiadau Tai yn 2018 ar waith. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar drefniadau diwygiedig ar gyfer monitro data a chanllawiau i sicrhau y caiff gwasanaethau eu hintegreiddio'n well.</p>	<p>Tai</p>

<p>11. Byddwn yn:</p> <p>Gweithio, gyda chymorth Tai Pawb, gyda'r sector tai, pobl anabl a rhanddeiliaid eraill i gydgyhyrchu safon ar gyfer Cofrestr Tai Hygyrch. Bydd y safon yn annog gwell dealltwriaeth o'r lefel bresennol o ran datblygu cofrestrau yng Nghymru drwy ddarparu diffiniad, wedi'i ategu gan gyfres o egwyddorion y gellir ei defnyddio i asesu a mesur cynnydd yn ei herbyn ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd y safon yn hwyluso'r broses o ddatblygu mwy o gofrestrau tai hygyrch yng Nghymru.</p>	<p>Tai</p>
<p>12. Byddwn yn:</p> <p>Parhau i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio i ddatblygu'r Grant Cymorth Tai. Bydd cynllun y system grantiau hon yn sicrhau y gall Awdurdodau Lleol barhau i nodi anghenion a chomisiynu gwasanaethau er mwyn galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Bwriedir i hyblygrwydd cynyddol a ffocws strategol y grant newydd wella gallu awdurdodau i sicrhau canlyniadau da.</p>	<p>Tai</p>
<p>13. Byddwn yn:</p> <p>Drwy'r Rhaglen Tai Arloesol, annog datrysiadau tai sy'n dangos y gallu i gynnig hyblygrwydd drwy eu hoes debygol i addasu i anghenion cyfnewidiol y preswlydd. Mae'r Rhaglen Tai Arloesol yn anelu at ysgogi ffordd newydd o feddwl wrth ddylunio a darparu tai fforddiadwy er mwyn adlewyrchu nodau cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o drydedd blwyddyn y rhaglen, rydym wedi cynnwys thema benodol sy'n seiliedig ar wella gwydnwch a hyblygrwydd cartrefi.</p>	<p>Tai</p>
<p>14. Byddwn yn:</p> <p>Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella manylder y broses ar gyfer Asesu'r Farchnad Dai Leol er mwyn ystyried yr amrywiaeth o anghenion y gellid o bosibl eu hanwybyddu fel arall, er mwyn cynyddu nifer y tai hygyrch a gaiff eu datblygu sy'n adlewyrchu anghenion poblogaethau lleol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi mwy o sylw i ofynion grwpiau oedran hŷn ac iau, pobl anabl a grwpiau eraill.</p>	<p>Tai</p>

<p>15. Byddwn yn:</p> <p>Yn ystod yr adolygiad arfaethedig o'r safonau ansawdd tai presennol ar gyfer tai fforddiadwy sy'n canolbwyntio ar ofod, y gallu i'w haddasu a hygyrchedd, rhoi ystyriaeth briodol i'r safon Cartrefi Gydol Oes er mwyn sicrhau bod safon ansawdd tai newydd Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu anghenion presennol pobl anabl. Byddwn yn pennu nod tymor hwy i gyrraedd yr un safonau ym mhob cartref, ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth, a hynny erbyn 2025 fan bellaf.</p>	<p>Tai</p>
<p>16. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi cymorth i bobl anabl drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol sydd ar gael i bawb sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sy'n dioddef argyfwng neu y mae angen cymorth arnynt i'w helpu i barhau yn y gymuned. Y Gronfa Cymorth Dewisol</p>	<p>Cynhwysiant Ariannol</p>
<p>17. Byddwn yn:</p> <p>Sicrhau y caiff ein dull o fynd i'r afael â thlodi ymhlith pobl anabl ei lywio gan sail dystiolaeth gadarn, gan gynnwys, er enghraifft, dadansoddiadau parhaus o setiau data perthnasol (fel Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd) yn ogystal â dadansoddiadau o effeithiau diwygiadau lles.</p>	<p>Dyfodol Ffyniannus</p>
<p>18. Byddwn yn:</p> <p>Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw y grwpiau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi incwm isel, gan gynnwys pobl anabl, drwy gamau gweithredu trawslywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau, gan gynnwys drwy roi ein Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd ar waith, a'n Hadolygiad Tlodi Plant.</p> <p>Nodir camau pellach i leihau tlodi a lliniaru effeithiau tlodi o dan Amcan 7 o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru: Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p>	<p>Dyfodol Ffyniannus</p>

19. Byddwn yn:

Ystyried y camau gweithredu i'w cymryd ar ôl ymgysylltu â goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys pobl anabl, fel rhan o'r broses o ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr (2019-2020).

Trais yn erbyn Menywod,
Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol

Iach ac Egniol

Camau gweithredu

Adran Llywodraeth Cymru

1. Byddwn yn:

Gweithio gyda sefydliadau'r GIG i roi adborth ar ganlyniadau ein hasesiad er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion â namau synhwyrdd yn cael eu diwallu. (Drwy Fframwaith Cyflawni'r GIG, gofynnir i sefydliadau'r GIG gwblhau templed adrodd i ddangos sut y maent yn rhoi Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth i Bobl â Nam ar eu Synhwyrddau a Chyfathrebu â Hwyl ar waith mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd).

Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

2. Byddwn yn:

Integreiddio gwasanaeth 111 y GIG ymhellach â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddatblygir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn galluogi fframwaith mwy cyfannol i bobl gael cyngor a chymorth gweithredol i sicrhau'r iechyd a'r lles gorau posibl ac i annog mwy o annibyniaeth.

Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

3. Byddwn yn:

Creu llwyfan digidol ar-lein hygyrch i ddinasyddion, er mwyn rhoi mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

4. Byddwn yn:

Datblygu a gweithredu fframweithiau arolygu newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth i bobl anabl, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth rheoleiddiedig. Drwy weithredu'r fframweithiau newydd hyn, byddwn yn sicrhau bod gan bobl anabl, a phobl â nodweddion gwarchoddedig eraill, lais a rheolaeth o ran eu gofal a'u cymorth, gan gynnwys materion eiriolaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru

<p>5. Byddwn yn:</p> <p>Drwy <i>Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid 2013-2020</i>, gweithio gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru i sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn helpu unigolion â nam ar eu golwg i nodi'r canlyniadau y maent am eu cyflawni.</p> <p>Fel y nodir yn un o 10 blaenoriaeth allweddol y Cynllun Cyflawni, byddwn yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Lleol ac Awdurdodau Lleol i fonitro'r broses o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith a chefnogi'r broses honno. Mae darparu gwasanaethau adsefydlu a sefydlu ym mhob awdurdod sy'n atal unigolion sydd wedi colli eu golwg / sydd â nam ar eu golwg rhag colli eu hannibyniaeth, colli symudedd, cwmpo, teimlo'n ynysig a dioddef iselder.</p> <p>Law yn Llaw at Iechyd, Gofal Iechyd Llygaid</p>	<p>Iechyd Synhwyrdd</p>
<p>6. Byddwn yn:</p> <p>Drwy'r <i>Fframwaith gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw</i>, gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau y gall y garfan hon o bobl fanteisio ar yr un gwasanaethau â phawb arall. Fframwaith Awdioleg 2017-2020</p>	<p>Iechyd Synhwyrdd</p>
<p>7. Byddwn yn:</p> <p>Drwy ein <i>Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwyllderau'r Sbectwm Awtistig</i>, helpu plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i sicrhau y caiff eu hanghenion eu deall, i gyflawni eu canlyniadau llesiant ac i fyw bywydau boddhaus. Cynllun Cyflawni wedi'i Ddiweddarau ar gyfer Anhwyllderau'r Sbectwm Awtistig</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Awtistiaeth</p>
<p>8. Byddwn yn:</p> <p>Gwella canlyniadau llesiant pobl awtistig. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn gweithredu Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.</p>	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Awtistiaeth</p>

<p>9. Byddwn yn:</p> <p>Gweithio gyda'r GIG i sicrhau y gall pawb gael gafael ar wasanaethau Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg o ansawdd uchel a all helpu i hunanreoli cyflyrau cronig hirdymor a gwella canlyniadau i gleifion drwy gynnig mwy o annibyniaeth a gwella llesiant.</p>	<p>Technoleg ac Arloesedd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p>
<p>10. Byddwn yn:</p> <p>Drwy'r strategaeth <i>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</i> a'r cynllun cyflawni ategol, byddwn yn gweithredu fel rhan o bartneriaeth draws-sector i wella iechyd meddwl a lles i unigolion o bob oedran yng Nghymru. Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn strategaeth drawslywodraethol 10 mlynedd gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, yn dilyn gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Ategwyd y strategaeth gan gyfres o gynlluniau cyflawni manwl.</p>	<p>Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed</p>
<p>11. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi'r rhaglen camau gweithredu trawslywodraeth 'Anabledd Dysgu: Gwella Bywydau' ar waith sy'n anelu at wella ac atgyfnerthu'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn nodi anghenion unigolion ag Anabledd Dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr ac yn ymateb yn effeithiol i'r anghenion hynny.</p> <p>Sicrhau y caiff yr argymhellion eu rhoi ar waith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, sgiliau, trafnidiaeth a thai.</p> <p>Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau</p>	<p>Rheoli'r Rhaglen: Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio</p> <p>Rhoi'r camau gweithredu ar waith: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus</p>
<p>12. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi cymorth ariannol i Chwaraeon Anabledd Cymru drwy Chwaraeon Cymru. Mae'r cyllid yn galluogi pobl anabl i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ac mae'n cynnwys chwaraeon ar lawr gwlad a chwaraeon cymunedol hyd at lefel elitaidd lle mae para-athletwyr o Gymru yn cynrychioli Cymru a Thîm Prydain Fawr. Mae'r cyllid hwn yn galluogi Chwaraeon Anabledd Cymru i wneud y canlynol:</p>	<p>Chwaraeon</p>

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">• gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i ddarparu Rhaglen Gymunedol o gyfranogiad ar lawr gwlad drwy rwydwaith o Swyddogion Datblygu;• cydweithredu i ddatblygu para-athletwyr sy'n gymwys i gael eu dethol i gymryd rhan mewn chwaraeon perfformiad ar lefel Cymru a Phrydain Fawr;• dylanwadu ar y sector i gynnwys pobl anabl. | |
|---|--|

Uchelgeis a Dysgu

Camau gweithredu	Adran Llywodraeth Cymru
<p>1. Byddwn yn:</p> <p>Fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf, parhau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i wasanaethau arbenigol i deuluoedd â phlant anabl. Mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae unrhyw fath o nam yn effeithio arnynt. Nid oes diffiniad o 'nam' yng nghanllawiau Teuluoedd yn Gyntaf, a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae unrhyw fath o nam yn effeithio arnynt. Pennir yr union wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol yn seiliedig ar angen. Ni ddefnyddir cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i dalu am wasanaethau statudol a dylid cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau na chaiff gwasanaethau y dylid eu darparu fel dyletswydd statudol eu dyblygu.</p>	Plant a Theuluoedd
<p>2.</p> <p>Fel rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cymru â Chwarae Cymru i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae, gweithiodd Chwarae Cymru gydag Alison John and Associates i ddatblygu'r 'Pecyn Cymorth Creu Mannau Chwarae Hygyrch'. Mae'r pecyn cymorth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, yn cynnwys canllawiau ar gyfleoedd chwarae cynhwysol a hygyrch i ddiwallu anghenion plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl.</p> <p>Crey Mannau Chwarae Hygyrch</p>	Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
<p>3. Byddwn yn:</p> <p>Parhau i sicrhau bod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, i sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant ar gael yn eu hardal i ddiwallu anghenion rhieni sy'n ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae rhan o'r ddyletswydd hon yn cynnwys darparu gofal plant i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu y mae angen gofal arbenigol arnynt. Cynhaliodd Awdurdodau Lleol</p>	Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

<p>Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant llawn yn 2017 a gyhoeddwyd ar eu gwefannau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gweithredu sy'n dangos sut yr ymdrinnir â bylchau o ran digonolrwydd. Mae'r Awdurdodau Lleol yn llunio Adroddiadau Cynnydd bob blwyddyn gan ddiweddarau'r cynllun gweithredu. Cynhelir yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant llawn nesaf yn 2022.</p>	
<p>4. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi ein <i>Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</i> ar waith, er mwyn sicrhau y darperir ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn system addysg gynhwysol, lle y caiff anghenion eu nodi'n gynnar a'u diwallu'n gyflym, a lle y caiff pob dysgwr gymorth i gyflawni ei botensial.</p> <p>Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol</p>	<p>Cymorth i Ddysgwyr</p>
<p>5. Byddwn yn:</p> <p>Helpu pobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau i ymgymryd ag addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth arbenigol, er mwyn iddynt allu datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw bywydau lled-annibynnol/annibynnol.</p>	<p>Cymorth i Ddysgwyr</p>
<p>6. Byddwn yn:</p> <p>Helpu myfyrwyr anabl i ymgymryd ag Addysg Uwch ac i lwyddo wrth wneud hynny drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal adolygiad o'r polisi Lwfansau i Fyfrwyr Anabl yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu'n effeithiol; • cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y Lwfansau i Fyfrwyr Anabl. 	<p>Strategaeth, Polisi a Chyflawni Addysg Uwch</p>
<p>7. Byddwn yn:</p> <p>Byddwn yn mynd i'r afael â throeddau casineb, aflonyddu a bwlio sy'n ymwneud ag anabledd drwy ein gwaith gyda'r pedwar heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron, Cymorth i Ddiodefwyr, partneriaid eraill ar y</p>	<p>Cydraddoldeb</p>

<p>Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb a'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd. Mae'r gwaith hwn yn anelu at sicrhau y caiff dioddefwyr troseddau casineb eu hannog i roi gwybod am droseddau o'r fath a chael cymorth a chyfiawnder, ac yr ymdrinnir ag achosion yn briodol gan sicrhau lefel uchel o foddhad i'r dioddefwr. Yn ogystal, mae ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Ranbarthol ehangach yn ceisio meithrin gwell goddefgarwch a pharch er mwyn atal troseddau casineb rhag digwydd.</p>	
<p>8. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi'r 19 o gamau gweithredu yn ein <i>Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor</i> ar waith a sicrhau y gall pobl anabl gael mynediad cyfartal i'r gwasanaethau cyngor o ansawdd sydd eu hangen arnynt i ddatrys problemau o ran dyledion, budd-daliadau lles, tai, cyflogaeth a gwahaniaethu.</p> <p>Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor</p>	<p>Cynhwysiant Ariannol</p>
<p>9. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi'r <i>Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru</i> ar waith. Unwaith y bydd mwy o ddarparwyr cyngor wedi cyrraedd Safon Ansawdd wedi'i hachredu drwy'r Fframwaith, gall pobl anabl ledled Cymru fod yn hyderus eu bod yn cael cyngor diduedd gan ddarparwr sy'n bodloni elfennau hanfodol gwasanaeth o ansawdd.</p> <p>Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor</p>	<p>Cynhwysiant Ariannol</p>
<p>10. Byddwn yn:</p> <p>Gweithio i wella dealltwriaeth o'r Model Cymdeithasol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a thu hwnt, er mwyn sicrhau y caiff ei adlewyrchu'n eang yn ein polisiau a'n rhaglenni. Byddwn yn gwneud hyn drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal cyrsiau ymwybyddiaeth a gweithdai i hyrwyddo'r Model Cymdeithasol; 	<p>Cydraddoldeb</p>

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">• gweithio'n agos gydag arweinwyr polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn eu hannog i gynnwys y model fel rhan o bolisiâu newydd a pholisiâu sy'n bodoli eisoes;• gweithio gyda'n tîm cyfathrebu er mwyn sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i fodelau arfer da o'r Model Cymdeithasol ar wefan Llywodraeth Cymru. | |
|---|--|

Unedig a Chysylltiedig

Camau gweithredu	Adran Llywodraeth Cymru
<p>1. Byddwn yn:</p> <p>Gwella hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Monitro boddhad teithwyr â gorsafoedd rheilffordd.• Sicrhau y caiff gorsafoedd newydd a gorsafoedd wedi'u hadnewyddu eu datblygu'n unol â'r Weledigaeth ar gyfer Gorsafoedd sy'n cynnwys egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd wrth ddylunio gorsafoedd.• Monitro hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol ar ôl cyflwyno'r safonau ansawdd gwirfoddol i fysiau â phartneriaid fel rhan o'r trefniadau monitro sydd ar waith ar gyfer talu'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau a chyllid arall.• Gweithio gyda Phwyllgor Cyngori ar Drafnidiaeth Pobl Anabl yr Adran Drafnidiaeth ac eraill i ddatblygu canllawiau arfer da a deunyddiau hyfforddi a fydd ar gael i weithredwyr bysiau i'w helpu i ddatblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i yrwyr ac i gyflwyno'r hyfforddiant hwnnw.• Gweithio gyda'n Panel Trafnidiaeth Hygyrch i ddatblygu amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda chamau gweithredu penodol wedi'u cynllunio i wella hygyrchedd a chynhwysiant ym mhob rhan o'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru.• Monitro hygyrchedd y gwasanaethau awyr rhwng y gogledd a'r de a ddarperir o dan gontract gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau y gall teithwyr anabl barhau i deithio drwy'r awyr yn hyderus yng Nghymru o dan y contract pedair blynedd newydd a ddechreuodd ym mis Chwefror 2019.	Seilwaith Economaidd
<p>2. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol a'r Cynllun Cyflawni ar waith ac yn cyflawni ein hymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i fuddsoddi yn sgiliau digidol pobl, gan weithio gyda phobl hŷn a sefydliadau anabledd i gefnogi gweithgareddau Cynhwysiant Digidol a helpu i'w cydgysylltu ledled Cymru.</p>	Cynhwysiant Digidol

<p>Bydd Learn My Way yn helpu unigolion sy'n awyddus i feithrin sgiliau digidol sylfaenol i wneud hynny ar adeg/lleoliad sy'n gyfleus iddynt. O 1 Gorffennaf, bydd ein rhaglen newydd, Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a lles, yn canolbwyntio ar wella galluoedd digidol dinasyddion a staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan alluogi mwy o bobl i gyfranogi mwy yn eu hiechyd a'u lles eu hunain. Bydd hefyd yn parhau i ymgysylltu ag unrhyw sefydliad a all helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.</p> <p>Fframwaith Cynhwysiant Digidol</p>	
<p>3. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi cymorth i bobl anabl gael gwasanaeth Band Eang Cyflym lawn lle nad yw ar gael ar hyn o bryd, drwy ein Cynllun Allwedd Band Eang Cymru, sydd ar gael i bob unigolyn a chymuned sy'n bodloni'r meini prawf.</p> <p>Allwedd Band Eang Cymru</p>	Seilwaith TGCh
<p>4. Byddwn yn:</p> <p>Adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ein Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi'i lywio gan werthusiad o'r rhaglen a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin 2019. Bydd gwaith yn ystod y misoedd nesaf yn helpu i lywio mentrau yn y dyfodol er mwyn gwella cynrychiolaeth grwpiau a gaiff eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y rhwystrau a wynebier gan bobl anabl wrth gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.</p> <p>Gwerthusiad - Amrywiaeth mewn Democratiaeth</p>	Llywodraeth Leol
<p>5. Rydym yn:</p> <p>Ymrwymedig i gyflwyno cynllun yng Nghymru i roi cymorth ariannol i bobl anabl sy'n cynnal ymgyrch etholiadol mewn etholiadau llywodraeth leol a gaiff ei ddatblygu fel rhan o ail gam y Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth.</p>	Llywodraeth Leol

<p>6. Byddwn yn:</p> <p>Casglu data cadarn ar benodiadau cyhoeddus er mwyn monitro nifer y bobl anabl sy'n gwneud cais, sy'n cyrraedd y rhestr fer ac a gaiff eu recriwtio a'u hailbenodi ar ddiwedd y broses i Fyrddau'r sector cyhoeddus yn effeithiol. Bydd hyn yn ein helpu i nodi rhwystrau penodol yn y broses recriwtio ac ymdrin â nhw.</p>	<p>Yr Uned Cyrff Cyhoeddus</p>
<p>7. Byddwn yn:</p> <p>Datblygu strategaeth amrywiaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus a fydd yn ymdrin â sawl elfen o'r broses penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rhoi cyhoedduswydd i benodiadau a'u gweithredu a'u hygyrchedd i grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl. Caiff hyn ei ategu gan gymorth ychwanegol i aelodau'r bwrdd ac ymgeiswyr a fu bron â chael eu penodi drwy fentrau fel hyfforddi a mentora.</p>	<p>Yr Uned Cyrff Cyhoeddus</p>
<p>8. Byddwn yn:</p> <p>Helpu cyrff a ariennir gan ein Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant i sicrhau cronfa fwy amrywiol o wneuthurwyr penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus ac o fewn penodiadau cyhoeddus drwy nodi ffactorau sy'n atal pobl anabl a grwpiau eraill a gaiff eu tangynrychioli rhag ymgysylltu a chyfranogi ac ymdrin â'r ffactorau hynny.</p>	<p>Yr Uned Cyrff Cyhoeddus</p>
<p>9. Byddwn yn:</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth hygyrchedd i ymwelwyr anabl sy'n chwilio am leoedd i aros neu ymweld â nhw, ac yn cyfeirio busnesau twristiaeth at fentrau a all helpu i wella eu darpariaeth i ymwelwyr anabl.</p>	<p>Twristiaeth</p>

<p>10. Byddwn yn:</p> <p>Cynnal gwaith ymchwil i ymwelwyr â'r safleoedd hanesyddol a'r henebion sydd o dan ofal y wladwriaeth er mwyn ystyried ein cynulleidfa yn y dyfodol, a fydd yn ein galluogi i lywio strategaethau a pholisïau yn y dyfodol ar hygyrchedd i ymwelwyr. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â phobl ag anawsterau corfforol ac anawsterau dysgu er mwyn gwella hygyrchedd i bawb.</p> <p>Ystyried cyfleoedd sy'n deillio o waith datblygu ar safleoedd CADW i integreiddio datrysiadau mynediad modern mewn ffordd ystyriol.</p> <p>Datblygu canllawiau newydd a fydd yn egluro sut i gynllunio a gwella mynediad i adeilad rhestredig yng Nghymru i bawb, gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn.</p>	<p>CADW</p>
<p>11. Byddwn yn:</p> <p>Rhoi'r argymhellion a ddeilliodd o'r ddeiseb ddiweddar ar gyfer ymgyrch arddangos sgoriau hygyrchedd ar waith er mwyn ystyried sut y gellid datblygu ymgyrch o'r fath ledled Cymru.</p>	<p>Cydraddoldeb</p>
<p>12. Byddwn yn:</p> <p>Datblygu siarter genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau, gan gynnwys addysg, i blant a phobl ifanc F/fyddar a'u teuluoedd. Rydym yn rhagweld y byddai siarter o'r fath yn darparu sail ar gyfer amrywiaeth o waith gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill, i ddeall y ddarpariaeth cymorth bresennol ar gyfer unigolion B/byddar ac unigolion â nam ar eu clyw a'r canllawiau a'r safonau arfer da mewn perthynas ag unigolion B/byddar ac unigolion sydd wedi colli eu clyw sy'n cael eu datblygu er mwyn helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Byddai angen i siarter BSL fod yn ddigon eang a hyblyg i adlewyrchu amgylchiadau cyfnewidiol a datblygiadau yn y dyfodol.</p>	<p>Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus</p>

<p>13. Byddwn yn:</p> <p>Drwy ein Strategaeth (arfaethedig) ar Unigrwydd ac Unigedd, gweithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd i bobl anabl gysylltu â'u cymunedau a chefnogi seilwaith cymunedol sy'n helpu i gynnal y cysylltiadau cymdeithasol hynny.</p>	<p>Galluogi Pobl</p>
<p>14. Byddwn yn:</p> <p>Ystyried opsiynau polisi i gynyddu nifer y toiledau Changing Places mewn adeiladau sydd ar agor i'r cyhoedd, gan gynnwys newidiadau posibl i'n gofynion o ran gwario grantiau a'n gofynion o ran rheoliadau cynllunio/adeiladu.</p>	<p>Rheoliadau Adeiladu / Cynllunio</p>

Ffyniant i Bawb - Amcanion Llesiant

1. Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
2. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
3. Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
4. Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas at y dyfodol
5. Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
6. Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell
7. Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
8. Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes
9. Grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid
10. Meithrin cymunedau cadarn, diwylliant, ac iaith
11. Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
12. Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd